

Llais Ogwan


Papur Bro Dyffryn Ogwen

Chwefror 2014

Rhif 441

50c

Neuadd Ogwen ar Newydd Wedd



Bydd amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu cynnal yno, yn ffilmiau, cyngherddau, gigs, cyfarfodydd a chynadleddau – heb anghofio'r boreau coffi sydd mor boblogaidd.

Y sawl sydd â'r gwaith o drefnu'r holl weithgaredd yma yw'r ddau reolwr newydd, Dilwyn Llwyd a Rhys Davies. Bydd llawer un yn gyfarwydd â Dilwyn drwy ei waith â Tabernacl yn y gorffennol, yn enwedig ei gyfraniad i drefnu gŵyl Pesda Roc 2011. Mae Rhys hefyd yn un sydd â chyswllt â'r fro, gan y bu Bethesda yn gartref i un o'i fentrau blaenorol, Camre Cymru, cwmni sy'n trefnu teithiau rhyngwladol i ddisgyblion ysgol. Bydd Rhys yn dod â'i brofiad busnes sylweddol i'r fenter newydd hon, tra bydd Dilwyn yn defnyddio ei arbenigedd mewn trefnu digwyddiadau i greu rhaglen ddeniadol a chyffrous i'r neuadd.

Gobaith y cwmni ydi y bydd y drysau'n ailagor i'r cyhoedd tua diwedd Mai. Os hoffech weld copi o'r cynlluniau presennol, maent ar gael o www.neuaddogwen.com.

MAE trigolion Dyffryn Ogwen yn edrych ymlaen yn eiddgar at weld drysau Neuadd Ogwen yn agor eto, a chael defnyddio'r adnoddau newydd o'i mewn. Bydd y neuadd ar ei newydd wedd yn gaffaeliad i'r holl ardal, a'r gobaith yw y bydd yn datblygu'n ganolfan llawer iawn prysurach nag y bu. Fel canolfan aml-bwrpas, fodern a hwylus yng nghanol y dyffryn, bwriad y cwmni sy'n gyfrifol amdani, sef Tabernacl (Bethesda) Cyf., yw datblygu rhaglen o weithgareddau amrywiol a fydd yn apelio at bobl Bethesda a'r cylch.

Mewn datganiad i'r Llais, mae'r Cynghorydd Dyfrig Jones, ysgrifennydd y cwmni, yn sôn am yr hyn sydd wedi digwydd hyd yma ac am y datblygiadau sydd ar y gweill:

“Fel y bydd rhai o drigolion y dyffryn wedi sylwi, ar ôl cyfnod o eistedd yn wag mae 'na fywyd i'w weld yn Neuadd Ogwen unwaith eto. Dros y misoedd diwethaf mae cwmni Tabernacl wedi bod yn gweithio i sicrhau'r cyfan o'r cyllid sydd ei angen i wneud y gwaith adnewyddu ar y neuadd, ac i benodi adeiladwyr. Erbyn hyn, mae cwmni RL Davies o Lysfaen wrthi'n gweithio'n galed, gyda'r nod o ailagor y neuadd yn gynnar yn yr haf.

Pan fydd y gwaith ar ben, bydd y neuadd wedi cael gweddnewidiad llwyr.

Fe fydd yr hen seddi wedi mynd o'r brif neuadd, gyda seddi newydd yn eu lle, fydd yn gallu cael ei symud yn ôl i wneud defnydd llawn o'r gofod. Bydd y cyntedd a'r lolfa yn cael eu hailwampio, gyda chegin a thoiledau newydd yn cael eu gosod. Ac uwchlaw'r lolfa bydd ystafell gyfarfod newydd, swyddfa i'r rheolwr, ac ystafell dechnegol ar gyfer rheoli'r system sain a goleuo newydd.

Bwriad Tabernacl ydi troi'r neuadd yn ganolfan gelfyddydol gymunedol a fydd yn cynnig rhywbeth i bawb o bobl y dyffryn.



Cais i drigolion Dyffryn Ogwen

Os oes unrhyw un ohonoch chi ddarllenwyr yn dymuno cyfrannu mewn unrhyw fodd i ddatblygu'r ganolfan hon, mae croeso i chi gysylltu â Dyfrig ar: dyfrigjones@outlook.com am ragor o fanylion.

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

Derfel Roberts
hylaw@btinternet.com

600965

Ieuan Wyn
cylch@tiscali.co.uk

600297

Lowri Roberts
l.roberts11@btinternet.com

600490

Dewi Llewelyn Siôn
dewision@hotmail.co.uk

07901
913901

Fiona Cadwaladr Owen
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

601592

Siân Esmor Rees
sian_esmor@btinternet.com

600427

Neville Hughes
nev_hughes@btinternet.com

600853

Dewi A Morgan
dewimorgan@live.co.uk

602440

Trystan Pritchard
trystanrp1@gmail.com

07402
373444

Walter W Williams
waltermenai@yahoo.co.uk

601167

SWYDDOGION

Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor, Bethesda,
Gwynedd LL57 3DT 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd Hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,
Llanllechid LL57 3EZ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais Drwy'r Post:
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

Golygwyd y mis hwn gan Ieuan Wyn.

Golygydd mis Mawrth fydd Dewi Llewelyn Siôn, Pencraig, 42 Erw Las, Bethesda, LL57 3NN. (07901 913901)

dewision@hotmail.co.uk

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 05 Mawrth, os gwelwch yn dda. Plygu nos lau, 20 Mawrth, yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

DYDDIADUR Y DYFFRYN

Mis Chwefror

24 Te Bach, Eglwys y Gelli am 2.00.

25 Cyfarfod Blynnyddol
Plaid Cymru Dyffryn Ogwen.
Caffi Coed y Brenin am 7.00

26 Cangen Plaid Lafur Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes am 7.30.

27 Merched y Wawr Bethesda.
Dathlu Gŵyl Ddewi gyda Ieuan Wyn.
Cefnfaes am 7.00

Mis Mawrth

01 Te Crempog, Eglwys y Gelli am 2.00.

01 Bore Coffi Plaid Cymru.
Caffi Coed y Brenin. 10.00 - 12.00

03 Merched y Wawr Tregarth. Dathlu Gŵyl
Ddewi ym Mwyty Tŷ Golchi, Bangor.

06 Sefydliad y Merched Carneddi.
Parti Bytholwyrdd. Cefnfaes am 7.00

07 Y Monïars yng Nghlwb Criced a Bowlio
Bethesda.

08 Marchnad Ogwen.
Clwb Rygbi Bethesda. 10.00 – 2.00

08 Cyfeillion Ysbyty Gwynedd.
Stondin Tombola ym Marchnad Ogwen.
10.00 – 2.00

10 Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen.
Festri Jerusalem, Bethesda am 7.00

15 Bore Coffi Cyfeillion Ysbyty Gwynedd.
Caffi Coed y Brenin. 10.00 – 12.00

20 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45

27 Merched y Wawr Bethesda.
Bethan Jones a'r Cŵn Tywys.
Cefnfaes am 7.00

Dyddiadur y Dyffryn

Rhowch wybod i
Neville Hughes am unrhyw
ddigwyddiadau
yr hoffech eu gweld yn cael eu
cynnwys yn y dyddiadur

01248 600853

Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn
copi o'r Llais ar gasét bob mis,
cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd 601415

Neville Hughes 600853

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Rhoddion i'r Llais

£300 Cyngor Cymuned Pentir

£5 Mrs Marilyn Jones, Glanffrydlas,
Bethesda

£5 Mrs Bessie Buckley, Maes Ogwen,
Tregarth

£5 Mrs Heulwen Evans, Bro Rhiwen,
Rhiwlas

£10.50 Mrs Eurwen Griffith,
5 Rhes Mostyn, Bethesda

£5 Er cof am Robert Taylor oddi wrth
Mair a'r teulu

£5 Mr John Ffrancon Davies, Windsor

£10 Mr Ken Jones, Edgeware

£32 Dienw, Llandygái

£20 J a D Russell, Llandygái

£5 Norma a Derek Griffith,
46 Abercaseg, Bethesda

£10 Mrs Gwyneth Morris, Gwaen Gwiall

£8 Mr Don Hughes, Ripponden

£5 Di-enw, Penybryn, Bethesda.

£10 Er cof annwyl am Brian Parry, a fu
farw 4 blynedd yn ôl, oddi wrth Joan
a'r teulu

£28 Mrs Jennie Jones, 11 Bryn Caseg.

£5 Mr Herbert Griffiths,
46 Bro Syr Ifor, Tregarth

£4.50 Mrs Blodwen Cavanagh,
Maesygarneidd, Bethesda.

Diolch yn Fawr

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Mis Chwefror

£30.00 (155) Mrs Bessie Buckley
Maes Ogwen, Tregarth

£20.00 (178) Mrs Ann Jones
5 Bron Arfon, Rachub

£10.00 (49) Mrs Nancy Williams
Ffordd Stesion, Bethesda

£5.00 (9) Mr Maldwyn Hughes,
Cefn Dinas, Minffordd, Bangor

Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan

Cysodwyd gan **Tasg**,
50 Stryd Fawr Bethesda,
LL57 3AN 07902 362 213
post@tasg.co.uk

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
 01248 601669

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
 01248 600184

Annwyl Ddarllenwyr

Cyflwyno Hanes Cymru

Mae ymgyrch ar hyn o bryd i gael lle canolog i hanes Cymru yn ysgolion ein gwlad, ac mae gan Ganolfan Hanes Gwyrfai ran allweddol yn yr ymgyrch. Er mwyn tynnu sylw at y diffyg yn y cwricwlwm cenedlaethol, mae'r Ganolfan yn cynnal cyfres o gyfarfodydd i gyflwyno agweddau ar ein hanes cenedlaethol i'r cyhoedd.

Bydd y cyfarfod nesa ddydd Sadwrn, Mawrth 8fed yn y Ganolfan yng Nghlynnog Fawr. Byddwn yn clywed hanes 'Brad y Llyfrau Gleision' gan yr hanesydd o Benmachno, Eryl Owain. Ar yr un pwnc ceir hanes unigryw Iorthryn Gwynedd a'i waith rhyfeddol yn ardal Caereinion gan Dr Gwawr Jones, Bangor. Y trydydd siaradwr ar y pwnc fydd Dr John Glyn, Llanllyfni, fydd yn cloriannu effaith y 'Brad' hyd at ein dyddiau ni. Neilltuir digon o amser ar gyfer cwestiynau, sylwadau a thrafodaeth. Bydd yma wledd i'r sawl sydd yn caru Cymru. Dewch yn llw !

Dydd Sadwrn, Mawrth 8fed, 2014 ;
Dim tâl mynediad

10.15-10.30 Cofrestru
10.30-12.00 Yr hanes. Cynnwys y Llyfrau Gleision. Iorthryn Gwynedd.
12.00-13.00 Awr ginio anffurfiol (pawb i ddod â'i fwyd ei hun: paned ar gael).
13.00-14.30 Cymhwyso'r dystiolaeth:
Y gwersi i ni heddiw: trafodaeth.

I gofrestru, cysylltwch â ni :
Ffôn: 01286 660 546 / 853 / 655
e-bost: canolfanuwchgwyrfai@gmail.com

Yn gywir,
Jina Gwyrfai

Annwyl Ddarllenwyr,

Rali yn Erbyn Miloedd o Dai Diangen

Yn ystod y misoedd nesaf bydd Cynghorau Sir Gwynedd a Môn yn cyhoeddi'r hyn sydd yn cael ei alw yn Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Bwriad y Cynllun ydi codi 7,665 o dai newydd yn y ddwy sir, - ac mae'r nifer hwn yn cynnwys darparu ar gyfer mewnffudo.

Rydym yn galw ar bawb sydd yn poeni am foddï ein cymunedau gyda miloedd o dai diangen ac sydd am weld dyfodol i'n cymunedau Cymraeg i gefnogi'r ymgyrch i bwyso ar y ddau gyngor sir i seilio eu Cynllun Datblygu ar ymchwil cynhwysfawr o anghenion tai lleol. Gofynnwn i chi gefnogi'r alwad trwy ddod i rali a drefnir gennym yng Nghaernarfon ar 29 Mawrth. Dewch i ddangos bod rhaid newid trywydd er mwyn sicrhau unrhyw ddyfodol i'r Gymraeg.

Rali NA i 8000 o Dai.

Y Maes, Caernarfon
Dydd Sadwrn, Mawrth 29ain
1.00 o'r gloch y pnawn

Siaradwyr:
Angharad Tomos,
Craig ap Iago
ac eraill

Gyda diolch,
Pwyllgor Gweithredol CDLL Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Grŵp Drama yn Ysgol Dyffryn Ogwen 1954



Rhes gefn: Raymond, y fi, Myrddin
Rhes flaen: Eluned, Elana, Mr Davies, Buddug, Alwena.

7 Winkfield Road, Windsor, Berks, SL4 4BA

24. 01. 14

Annwyl Olygydd,

Mi ddois ar draws y llun yma yn ddiweddar, wedi ei dynnu yn Ysgol Dyffryn Ogwen tua 1954. Grŵp o ddisgyblion wedi perfformio drama fach yn yr ysgol dan arweiniad Mr J. E. Davies, athro daearyddiaeth.

Bu farw Mr J. E. Davies yn ifanc, a bu farw Mrs Elana (Davies) ychydig flynyddoedd yn ôl. Rwy'n gwybod fod Myrddin yn byw yn Ne Cymru ond dw'i ddim yn gwybod dim am y lleill. Mi fuasai'n ddifyr cael tipyn o newyddion trwy'r Llais os yn bosib, Diolch yn fawr.

Yn gywir,
John Ffrancon Davies.
01753 862599

O.N. Wna i byth anghofio mai Dafydd Orwig ddilynodd Mr Davies i ddysgu daearyddiaeth imi!!!

Annwyl Ffrindiau,

Pontio! Dyna enw canolfan newydd y celfyddydau ac arloesi ym Mangor, sy'n agor ei drysau eleni. Fe fydd Pontio yn gartref i theatr ganolig ei maint, theatr stiwdio, sinema, bar caffi, a llawer mwy.

Yn y gorffennol, mae'n siŵr eich bod chi wedi ymweld â Theatr Gwynedd, ac yn dal i gofio rhai o'r cynrychiadau gwych fu ar lwyfan y sefydliad hwnnw - sefydliad a gyfrannodd mor sylweddol at fywyd diwylliannol Cymru. Wel, mae Pontio yn codi fel ffenics o seiliau y theatr honno, a'r bwriad ydi cynnwys eich atgofion chi o'r nosweithiau ddaru chi eu mwynhau yn Theatr Gwynedd, mewn arddangosfa weledol a lleisiol i gyd-fynd ag agoriad Pontio.

Os oes ganddoch chi unrhyw atgofion am Theatr Gwynedd yr hoffech chi eu rhannu, cysylltwch efo mi drwy e-bost, neu fe allaf drefnu i alw draw i'ch gweld a chael sgwrs efo chi - dros banded. Llefrith ond dim siwgwr!

Dyma fy nghyfeiriad e-bost:
hywel.gwynfryn@bbc.co.uk.

Beth am gyfrannu i ddyfodol Pontio - drwy rannu eich atgofion o'r gorffennol yn Theatr Gwynedd.

Cofion cynnes,
Hywel Gwynfryn

Annwyl Ddarllenwyr,
Llyfrau Llafar Cymraeg i Blant

Mae cynllun arloesol rhwng Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru a Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd wedi gweld cynhyrchu Llyfrau Llafar Cymraeg newydd i Blant a fydd ar gael i'w benthyg - yn rhad ac am ddim - trwy lyfrgelloedd cyhoeddus Cymru yn unig. Amcenir i gynhyrchu 4 teitl newydd pob chwarter, ac eisoes mae Moi Misho gan Fiona Wynn Hughes, Pst! Rwy'ti'n Grêt gan Gwen Redvers Jones, Henri Helynt yn Dwyn o'r Banc gan Francesca Simon, ac Ar Fferm Ysgubor Wen, straeon Carys Lewis, ar gael yn llyfrgelloedd Gwynedd. Bu gofyn cyson gan rieni a theuluoedd ac athrawon am lyfrau llafar yn Gymraeg i blant, ac nid yn unig y bydd y straeon hyn ar CD ac MP3 yn fodd i blant a nam ar eu golwg fwynhau stori, ond hefyd byddant yn galluogi plant ag anawsterau dysgu a phlant sy'n dysgu Cymraeg fel ail-iaith gael mwynhau clywed stori yn cael ei ddarllen yn uchel yn Gymraeg.

Mae ymateb gwresog wedi bod i'r cynllun gan lyfrgellwyr ledled Cymru a gobeithiwn adeiladu stôr o ddeunyddiau llyfrau llafar i blant yn Gymraeg yn fuan. Gall ysgolion Gwynedd hefyd fanteisio ar yr adnoddau hyn drwy wneud archeb amdanynt trwy'r Gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion. Am ragor o wybodaeth am y cynllun hwn, cysylltwch â'ch llyfrgell leol neu Nia Gruffydd ar 01286 679465 neu NiaGruffydd@gwynedd.gov.uk

Sefydliad y Merched, Carneddi

Ar Chwefror 6ed, sef ail gyfarfod y flwyddyn, estynnodd ein llywydd, Margaret Williams, groeso i bawb yn ogystal â chyflwyno ymddiheuriadau gan rai aelodau, gan yrru ein cofion at Gwen Davies sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty, ond sydd gartref erbyn hyn. Anfonwyd cofion at John, ei gŵr, yntau wedi bod yn yr ysbyty hefyd. Gwellhad buan i'r ddau!

Wythnos yn gynharach aeth rhai o'r aelodau i Gaernarfon i gael cymryd rhan yn y seremoni o gael "Gafael yn y Baton", sef Seremoni Baton y Sefydliad a fydd yn gorffen yn Neuadd Albert y flwyddyn nesaf fel rhan o ddathlu canmlwyddiant y Sefydliad. Yr oedd 30 o ferched yn bresennol a phawb yn cael cyfle i afael yn y baton. Yr oedd Maer Caernarfon yn bresennol hefyd. Yn dilyn y seremoni cafwyd lluniaeth yn swyddfa'r Sefydliad yng Nghaernarfon.

Darllenwyd y cofnodion gan Jean Hughes a'r llythyr misol gan Margaret Williams, ac fe drafodwyd ambell i fater. Noson o frethyn cartref oedd gennym heno, ac fe ddaeth llawer o'n haelodau ymlaen i ddangos eu cynnyrch yn cynnwys coginio, gwau a chwiltio yn ogystal â chasgliad o hen filiau a chardiau post, a llyfrau o ffotograffau a oedd yn llawn atgofion. Roedd yn noson gymdeithasol dros ben a phawb wedi mwynhau – yn enwedig pan gawsant brofi'r cynnyrch coginio!

Diolchodd Margaret i bawb a gymerodd ran ac i Ceri a Ceinwen am y baned. Enillwyd y raffl, a roddwyd gan Violet Williams, gan Gwenno Roberts.

Merched y Wawr, Cangen Bethesda

Cyfarfod Cynta'r Flwyddyn.

Ar Ionawr 30ain, cynhaliwyd cyfarfod cynta'r flwyddyn dan lywyddiaeth y Fns Elena Owen, gyda'r Fns Gwenno Evans yn cyfeilio. Derbyniwyd ymddiheuriad gan Jean (Ogwen) ac estynnwyd ein dymuniadau gorau at y rhai oedd yn absennol ac wedi bod dan anhwylder yn ddiweddar. Nid yw ein llywydd, ei hun, wedi bod yn dda o gwbl dros y Nadolig, ond mae'n ymddwyn yn ddewr ac yn dal i frwydro yn erbyn yr elfennau.

Prin oedd yr ohebiaeth y mis hwn, ac felly aethpwyd ymlaen yn brydlon i groesawu'r siaradwraig, sef y Fns. Rhiannon Parry, gyda'i thestun eang 'Hel Dail'. Mae Rhiannon yn wreiddiol o Dalwrn, Môn, ond wedi byw am flynyddoedd yn Llansannan. Bu'n athrawes Addysg Grefyddol yn Ysgol Dyffryn Conwy, Llanrwst cyn ymddeol i fyw ym Mhenygroes. Gellir ei disgrifio fel gwraig ddiwylliedig dros ben, yn gyn-olygydd papur bro 'Y Gadlas', ac ar hyn o bryd yn olygydd cylchgrawn 'Y Wawr', wedi beirniadu yn Eisteddfodau Cylch yr Urdd, yn llenor amryddawn, yn hyddysg mewn crefftwaith, gyda diddordeb enfawr mewn hen feddyginiaethau, i enwi dim ond rhai o'i thalentau.

Dyma noson hynod addysgiadol. Derbyniasom ganddi hefyd wybodaeth am y gyfrol *Llysieuelyfr Salesbury* gan Dr Iwan Rhys Edgar. Dylem werthfawrogi fel cenedl pa mor ddyledus ydym i rai fel William Salesbury (1520 -1584), meistr ar ieithoedd fel Hebraeg, Lladin a Groeg. Yn 1567, cyfieithodd y Testament Newydd i'r Gymraeg, gan alluogi'r Cymry i dderbyn crefydd a dysg yn eu mamiaith. Rydym, meddai Salesbury, yn sathru dan ein traed lawer o lysiau llesol heb sylweddoli eu rhinweddau. Clywsom am rinweddau'r wermod wen, wermod lwyd, teim, saig, persli, ffrwyth yr ysgawen a.y.b. Roeddem i gyd yn troi tuag adref gyda'r awydd i ddefnyddio'r hen feddyginiaethau hyn i wella cyflwr ein hiechyd.

Diolchiadau'r Llywydd

Rhoddwyd diolchiadau haeddiannol am noson hwyliog, ddiddorol. Cawsom ein dysgu a'n diddanu, a byddwn yn edrych ymlaen at wahodd Rhiannon atom eto gyda'i thoreth o wybodaeth. Diolchwyd hefyd i'r merched a fu'n darparu'r lluniaeth.

Y Wobr Lwcus.

Rhoddwyd y wob'r lwcus gan Margaret, a'r enillydd oedd Jean (Northam).

EGLWYS UNEDIG BETHESDA

‘LLENW’R CWPAN’

Dewch am sgwrs a phaned

Bob bore dydd Iau
rhwng 10.00 o'r gloch a hanner
dydd

CAPEL BETHANIA BETHESDA

Mis Mawrth

02 Mr. Glyn Owen.
16 Parchg. Gwynfor Williams.

Oedfaon am 5.30

Croeso Cynnes i Bawb

Y Ffenest Nadolig Orau



Siop Blodau Hardd oedd enillydd y gystadleuaeth Ffenest Nadolig Orau 2013. Llongyfarchiadau i'r perchennog, Mrs Winnie Leung, sydd i'w gweld yn y llun yn derbyn Tlws Cyngor Cymuned Bethesda oddi wrth y Cadeirydd, y Cynghorydd Dyfrig Jones.

Eglwys Crist, Glanogwen

Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:

Sul Cyntaf pob mis

Cymun Bendigaid – 8.00am
Gwasanaeth Teuluol – 11.00am

Ail a thrydydd Sul pob mis -

Cymun Bendigaid Cymraeg – 11.00am

Pedwerydd Sul pob mis -

Cymun Bendigaid dwyieithog – 11.00am

Pumed Sul -

Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd
Llandygái a Phentir
(Lleoliad i'w gyhoeddi)

Pob bore Mercher am 10.30am - Cymun
Bendigaid

Arch Noa - Clwb bach yw hwn ar gyfer
plant bach cyn oed ysgol. Mae'n cyfarfod
yn Ysgol Abercaseg pob bore Llun am
9.15am.

Croeso cynnes i bawb i'r gwasanaethau
uchod.

Anfonwn ein cofion at bawb sydd yn
dioddef o unrhyw anhwylder gan obeithio
y daw adferiad buan i chwi i gyd.

Dymunwn Flwyddyn Newydd Dda a
Bendithiol i bawb yn y plwyf.

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

Paned a Sgwrs

Caffi Fitzpatrick
Bethesda
11.00 – 12.00
Dydd Sadwrn
cyntaf pob mis

Peint a Sgwrs

Douglas Arms
Bethesda
20.00 – 21.00
Trydydd Nos Lun
pob mis

Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog

Trefn Gwasanaethau

Chwefror

23 Peter a Nia Royal 2.00

Mawth

02 Parch. John Lewis Jones 2.00
09 Parch. Rhodri Glyn 2.00
16 Arwel Roberts 2.00

Croeso cynnes i bawb

Cylch Meithrin Cefnfaes

Bwrdd Elusen ym Marchnad Ogwen

Hoffai'r Cylch ddiolch unwaith eto i Bwyllgor Marchnad Ogwen am y croeso a gawsom ym mis Ionawr. Bu ein bwrdd elusen yn llwyddiannus dros ben a gwnaethpwyd elw o £105 at y Cylch. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd at y bwrdd, i Anti Michelle am wneud arwydd newydd lliwgar i ni ac i'r rhai a ddaeth i'n cefnogi yno.



Bore Coffi



Bore prysur dros ben a gawsom ar ddydd Sadwrn, Ionawr 25ain pan gynhaliwyd ein bore coffi yng Nghanolfan Cefnfaes. Bu rhieni, teuluoedd a ffrindiau oll yn brysur yn coginio ac yn paratoi nwyddau i'w gwerthu yno. Hoffwn ddiolch hefyd i'r canlynol am eu cyfraniadau: Castell y Penrhyn, Becws Cae Groes, Cypcecs Lois, Chwarel y Penrhyn, Siop Petha Da, Y Llangollen. Diolch hefyd i drigolion Bethesda am ddod yn llu i'n cefnogi. Gwnaethpwyd elw o £409 tuag at y Cylch.

Cylch Ti a Fi Bethesda.



Bob bore dydd Mawrth mae Cylch Ti a Fi Bethesda yn cyfarfod yng Nghanolfan Cefnfaes am 9.15 y bore. Cyfle i blant bach ganu, chwarae a gwneud crefft drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ddiweddar cawsom fwynhau sesiwn Sŵn a Sbri efo Anti Claire, a hoffwn ddiolch o galon iddi hi am ddod i'n diddanu. Cawsom fore bywiog yn llawn cerddoriaeth!

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub LL57 3LW
☎ 601880

Clwb yr Henoed

Cyn y Nadolig fe geisiwyd newid enw'r Clwb i 'Clwb Prynghawn' yn y gobaith o ddenu mwy o aelodau. Nid oes sicrwydd a fydd pob aelod yn fodlon ar y symudiad yma (cawn weld). Ar hyn o bryd rydym yn cyfarfod ar brynhawn Mercher bob mis, a hynny yn festri Capel Carmel. Mawr yw ein diolch i swyddogion y Capel am eu caredigrwydd. Ym mis Ionawr, Mrs Margaret Owen oedd y siaradwraig a bu'n adrodd hanes ei thaith wedi iddi ymweld â gwlad Canaan beth amser yn ôl. Difyr iawn oedd y sgwrs a'r atgofion. Enillwyd y wobrlwcus a roddwyd gan Margaret Owen, ein llywydd, gan Rita. Mae croeso i chwi ymuno â ni am orig ddifyr yn Festri Carmel.

Diolch

Dymuna Jena a David, Cae Rhosydd, Llwyn Bedw ddiolch o galon am y cardiau, yr anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd gan y teulu, ffrindiau a chymdogion ar achlysur hapus geni Elsi Mererid.

Cydymdeimlo

Ar Ionawr 7fed bu farw Rosemary Baston yn Ysbyty Singleton, Abertawe a hithau ond yn 52 mlwydd oed. Arferai Rosemary fyw ar Ffordd Llanllechid cyn ymadael am Bontarddulais ac ymuno â'i phartner, Gili Miles. Bu Rosemary boblogaidd iawn fel Siward ar Glwb Rygbi Pontarddulais am nifer fawr o flynyddoedd. Cynhaliwyd yr angladd yn Nhreforys ar Ionawr 23ain, gyda phresenoldeb mawr yn yr amlogsgfa, prawf o boblogrwydd Rosemary yn ardal Y Bont. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei brodyr a'i chwiorydd, Nancy, John, Joan, Douglas a Brenda a'r teulu oll. Mae'r teulu am ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt ar yr achlysur trist yma.

Carmel, Llanllechid

Trefn Gwasanaethau

Chwefror

23 Parchg Ddr Huw J Hughes 5.00

Mawrth

02 Parchg Trefor Jones 5.00

09 Oedfa 5.00

16 Parchg Arhro E.W. Jones 5.00

23 Miss Nerys Jackson 5.00

Ysgol Sul 10.30 y bore

Dwylo Prysur, Nos Wener 6.30 pm

Croeso cynnes i bawb

Pen-blwydd Hapus

I Brian Roberts, Tan y Garth, (Corbri) ar ddathlu ei ben-blwydd yn 70 oed ym mis Chwefror.

Gwaeledd

Anfonwn ein cofion ar drigolion sydd wedi derbyn triniaethau mewn ysbytai yn ddiweddar, yn eu plith mae'r Cyng. Pearl Evans, Britannia Hall a Mrs Dora Williams, Bron Arfon.

Da gweld Mrs Alice Jones, Tan y Gaer gartref wedi cyfnod hir yn yr ysbyty. Pob dymuniad da iddi. Mae hi am ddiolch i gyfeillion, cymdogion a'r teulu am y cardiau a'r galwadau a gafodd tra bu yn yr ysbyty.

Clwb Hanes

Y nos Fercher olaf ym mis Ionawr cafwyd cyfle i weld pedair ffilm yn ymwneud â'r ardal. Cafwyd cyfle i weld a chofio hen gymeriadau'r fro. Diolch i Gareth a Lowri Evans, Mignant, Dylan Rees Williams, Llangefni, gynt o Becws Caer Groes, ac i Mrs Vera Parry, Erw Las am roi benthyg y ffilmiau i ni. Bydd y cyfarfod nesaf yn Festri Carmel ar nos Fercher, Chwefror 26 am 7 o'r gloch. Pwnc y noson fydd Ffair Llan. Bydd croeso mawr i chi yno, a dewch â'ch atgofion am y ffair hefo chi.

Taid a Nain

Llongyfarchiadau i Twm a Karen, Hen Barc ar ddod yn nain a thaid. Ganwyd merch, Ela Grace, i Ceri a Lee yn y Gerlan. Pob dymuniad da i'r teulu. Anfonwn ein cofion hefyd at y ddau hen daid, Gwilym Rees Evans, Sychnant ac Owie Williams, Maes y Garnedd.

Tywydd drwg

Mi rydym wedi bod yn ffodus na fu llawer o ddifrod yn y rhan yma o'r wlad yn dilyn y glawogydd a'r gwyntoedd cryfion a gafwyd dros yr wythnosau diwethaf. Serch hynny, amser cinio ar y dydd Sadwrn olaf yn Ionawr cafwyd storm o fellt a tharanau enfawr. Achoswyd niwed i offer trydanol mewn llawer i gartref ac i'r siop leol, gan greu problemau am ddyddiau wedi'r storm.

Capel Bethel

Trefn Gwasanaethau

Chwefror

23 Parchg Dafydd Wyn Wiliam

Mawrth

02 Parchg W.R. Williams

09 Y Gweinidog

16 Mr Richard Lloyd Jones

23 Dr Tudor Ellis

30 Parchg Richard Owain Jones

Oedfaon am 2.00 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

CAPEL CARMEL

Bu plant a phobl ifanc y capel yn brysur yn casglu arian - darnau 20c at Apêl Haiti. Buont hefyd yn llenwi amlinelliad o siâp gwlad Haiti hefo arian. Wedi llenwi'r siâp a chyfri'r arian, cafwyd fod yna £75 at yr achos. Da iawn chi.



Rhai o blant yr Ysgol Sul a fu'n casglu arian at Apêl Haiti.

CLWB HANES RACHUB/LLANLLECHID

Nos Fercher. 26 Chwefror am 7.00 o’r gloch yn Festri Capel Carmel

Pwnc Trafod:

FFAIR LLAN

DEWCH Â'CH ATGOFION AM Y FFAIR.

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Pen-blwydd hapus

Ddechrau Chwefror dathlodd Hedd Williams, Tai'n Cae, ei ben-blwydd yn 70 oed. Rydym i gyd yn gyrru ein llongyfarchiadau calonnog iddo, ac yn gobeithio iddo gael pen-blwydd hapus iawn gyda'r teulu. Dymuniadau gorau, Hedd, oddi wrth bawb ohonom.

Adref o'r ysbyty

Treuliodd Len Williams, Ffordd Gerlan ychydig ddyddiau yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Mae bellach wedi dychwelyd adref. Rydym i gyd yn dymuno'r gorau iddo am wellhad llwyr a buan. Ein cofion i gyd atoch, Len .

Dyweddïo

Llongyfarchiadau mawr i Arwyn a Lowri, Ciltrefnus ar eu dyweddïad yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonoch, a phob bendith i'r dyfodol.

Profedigaeth

Rydym yn estyn ein cydymdeimlad dwys i Hedd Williams, Tai'n Cae, ac Eleanor a Richard Williams a'r teulu, Bryn Caseg, yn eu profedigaeth ddiweddar o golli Eirian Llwyd, oedd yn trigo yn Ynys Môn. Roedd y ddiweddar Eirian Llwyd yn wraig i gefnder Hedd ac Eleanor,

sef y cyn Aelod Seneddol ac Aelod Cynulliad, Ieuan Wyn Jones. Derbyniwch ein cydymdeimlad fel ardal yn eich colled.

Adref

Braf yw gweld Heather, Stryd y Ffynnon adref ar ôl cyfnod estynedig yn yr ysbyty. Ein dymuniadau gorau iti gan bawb o'r cymdogion, Heather, a brysia wella.

Llandygái

Ethel Davies, Pennard,
Llandygái ☎353886

Marwolaeth

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Mrs Meriel Williams, Llandegfan ar ddydd Sadwrn 31 Ionawr. Roedd pawb yn y pentref yn ei hadnabod gan fod ei thad a'i mam, y diweddar Hugh a Marian Roberts, wedi bod yn byw ym Min y Coed am flynyddoedd maith. Yn ddiweddarach daeth Mair ac Arwel, sef merch ac ŵyr i Meriel, yno i fyw. Cydymdeimlwn yn fawr ag Ifor ei gŵr, Gareth a Mair ei phlant, Arwel, Guto a Lois ei hwyron, a'i hwyres fach yn eu colled drist.

Braint i mi oedd fy mod wedi cael ei hadnabod fel gwraig gymwynasgar, fonheddig a hawddgar bob amser. Bendith Duw ar yr holl deulu.

Gwaeledd

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau i'r cleifion sy'n dal yn wael: Ernie a Nerys Coleman, Beryl a Jim Hughes, Dr Pam Jones, Olwen Latham, Cassie Tindall, Betty Williams a Dorothy Proudley Williams. Llwyf wellhad u chi i gyda a chadwch yn gynnes y tywydd oer a gwlyb yma.

Bingo

Nos Fawrth, 20 Ionawr cynhaliwyd y Bingo cyntaf am eleni yn Neuadd Talgai a'r elw yn mynd tuag at y neuadd. Diolch i Pauline a Raymond am drefnu'r noson ac i'r ffyddloniaid am eu cefnogaeth hefyd.

Pen-blwydd

Llongyfarchiadau i Cai Jones, 4 Pentre Llandygái gynt, ar 22 Chwefror pan fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn ugain oed. Hwyl fawr iti Cai, a gobeithio y cei lond trol o anrhegion.

Pen-blwydd arbennig

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mr robin Jones, 14 Pentre Llandygái a fydd yn dathlu ei ben-blwydd arbennig yn 90 mlwydd oed ar ddydd Iau, 20 Mawrth. Bydd hwn yn siŵr o fod yn ddiwrnod cofiadwy iawn i chi robin. Beth tybed fydd yn mynd ymlaen yn y pentref? Hwyl fawr i chi!

Eglwys Sant Tegai

Cydymdeimlad

Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf at Mrs Phyllis Davies (Eglwys Maes y Groes) yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, Blodwen ar 14 Ionawr yn Aberystwyth. Trist iawn i'r teulu gan mai 5 mis oedd yn ôl y bu farw eu chwaer, Mrs Olwen Edwards, tan y Bryn, Bangor.

Gwaeledd

rydym yn cofio y mis hwn eto am ein cyfeillion sydd yn wael yn eu cartrefi: Mrs Jane Couch, Mr Gwynne Edwards, Mr Harry Gross a Mr Keith Irons - byddwn yn meddwl llawer amdanoch ac yn sôn mor ffyddlon yr oeddech yn y gwasanaethau.

Dymunwn y gorau i Mrs Mary Bastable a fydd yn cael llawdriniaeth i asgwrn arddwrn ei llaw dde ar ddydd Iau, 6 Chwefror yn Ysbyty Gwynedd. Bydd Bob yn reit brysur yr wythnosau nesaf yma yn coginio a gwneud gwaith tŷ!! Roeddem yn hynod falch o glywed fod Mrs Siân Evans wedi dychwelyd adref o ysbyty Gwynedd. Mae'n siŵr fod Rhodri ac Elwen yn falch o'ch cael gartref ac y byddant yn eich difetha'n llwyr.

Te Bach

Diolch unwaith yn rhagor i'r Fucer, Sue ac aelodau Eglwys y Santes Fair, Tregarth am eu croeso cynnes i'r Te Bach ar ddydd Mawrth, 14 Ionawr. Bu'n brynhawn difyr dros ben ac mae'r clod yn mynd i Sue, Rosemary a Rhian am wneud y teisennau blasus a gweini arnom. Roedd John Matthews reit dda hefyd yng

ngofal y raffl ac yn sgwrsio'n hwyliog â phawb yn eu tro. Bu Llandygái yn reit lwcus yn ennill sawl gwobr.

Gwasanaeth y Cymun – Gŵyl Fair y Canhwyllau

Ar fore Sul, 2 Chwefror cawsom wasanaeth trawiadol iawn. Y Parchedig John Matthews oedd yn gwasanaethu a Mr Geraint Gill wrth yr organ, Nifer fach oedd yn bresennol er ein bod yn falch o weld Lionel ac Enid Gardner wedi dod atom. Cawsom eu cwmni hefyd fore Mercher dros bythefnos yn ôl.

Gweithgareddau

Mis bach yw hwn ond mae am fod yn fis prysur iawn i aelodau'r Gelli, Maes y Groes a ninnau. Cawsom ein Cinio Nadolig Blynnyddol yn y Bulkeley, Biwmares, Nos Wener 7 Chwefror. Diolch i Dilys unwaith yn rhagor am drefnu popeth.

Gwerthiant ar gyfer Sant Tegai

yn Ysbyty Gwynedd (drwy'r dydd) ar 10 Chwefror.

Hefyd, yng Nghanolfan Deiniol, Bangor (drwy'r dydd) ar 14 ac 15 Chwefror er budd Sant Tegai. Diolch i Rhian, Dorothy a'r cyfeilyddion caredig eraill.

Bydd croeso cynnes i bawb yn Eglwys Sant Tegai – Nos Wener, 28 Chwefror am 7.00 yr hwyr. Bydd sgwrs gan Mr Richard Westmacott Bennet ar “Achos Rhyfedd yr Arglwydd, y Gofeb a'r Cerflunydd Cymdeithas”. Tocynnau £5.00.

Bydd lluniaeth ysgafn yn Neuadd Talgai hefyd.

Sefydliad y Merched Llandygái

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn ar nos Fercher 23 Ionawr.

Rhoddodd Eira groeso cynnes i bawb a dymuniadau da am y flwyddyn. Anfonwyd ein cofion a'n dymuniadau da at Sheila, a oedd wedi cael damwain ddrwg, a thriniaeth cyn y Nadolig. Ein cofion hefyd at Iola – hithau wedi cael damwain anffodus ar ei gwyliau yn ystod mis Tachwedd.

Cafwyd rhai ymddiheuriadau am absenoldeb. Darllenodd Eirlys gofnodion mis Tachwedd a llythyr y Ffederasiwn. Nodwyd a thrafodwyd ei gynnwys.

Y siaradwraig wadd oedd merch ifanc sy'n wirfoddolwraig gydag elusen Marie Curie, sef Mari Gwenllïan Roberts. Rhoddodd inni hanes a gwaith yr elusen, sef rhoi cymorth i glaf a'i deulu – cleifion sydd yn wael ac ar ddiwedd oes. Maent yna i'r cleifion sy'n dioddef o unrhyw salwch terfynol, nos a dydd.

Pleser oedd gwrandao arni a diolchwyd yn gynnes iddi gan Dr Wendy.

Carneddi

Derfel Roberts,
Ffordd Carneddi, Bethesda
☎ **600965**

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Ceri a Lee Evans, Cae Clochydd ar enedigaeth merch fach, Ela Grace, ar 21 Ionawr 2014.

Llongyfarchiadau hefyd i Tom a Karen, Hen Barc, ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf, ac i Keith a Jackie, Rhes Penrhyn ar enedigaeth wyres fach arall.

Hefyd i’r ddau hen daid, sef Gwilym Rees Evans, Ceunant ac Owie Williams, Maes y Garnedd, heb anghofio Mrs Nancy Evans, Rhes Penrhyn sy’n hen nain eto. Pawb wedi mopio’n lân.

Diolch

Dymuna Ceri a Lee ddiolch i bawb am y cyfarchion, y cardiau a’r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Ela Grace. Diolch o galon.

Pen-blwydd

Dymuna Mrs Mari Williams, 100 Ffordd Carneddi ond sydd bellach ym Mhlas Ogwen, ddiolch am yr holl gardiau, yr anrhegion a’r arian a gafodd ar ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Bydd yr arian yn cael ei rannu rhwng Ambiwllans Awyr Cymru a Tŷ Gobaith. Diolch hefyd i staff Plas Ogwen am y parti a gafodd ar ddiwrnod ei phen-blwydd.

Braichmelyn

Rhiannon Efans,
Glanaber, Pant, Bethesda
☎ **600689**

Croeso

Croeso i Luned Edwards atom i 16 Rhes Jâms. Mae wedi symud o Ddinbych i fod yma gyda’i theulu sef Elin a Rheinalt, Cartrefle Gwen Fach ei hwyres. Gobeithio y byddwch yn hapus yn eich cartref newydd Luned. Cawn eich gweld o gwmpas pan fydd y tywydd yn caniatáu.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mr Ithel Owen, Penrhiw a gydag Ann a Gwyn a’u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli priod, mam a nain, sef Mrs Idwen Owen. Nid oedd wedi mwynhau iechyd da ers peth amser. Byddwn yn gweld ei cholled yn fawr; yr oedd yn wraig hoffus a chyfeillgar iawn. Rydym yn anfon ein cydymdeimlad at ei chwaer Buddug a’r teulu yn y Bala hefyd.

Cofion

Anfonwn ein cofion atoch i gyd a gobeithio y cewch iechyd da i oroesi’r tywydd ofnadwy yma.

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ **600853**

Cartref Newydd

Croeso i’r ardal i Vicky, Paul a’r plant sydd wedi ymgartrefu yn 63 Bro Emrys ac yn hapus i gael bod yn ein plith.

Capel Bethlehem

Chwefror

23 : Parchg Cledwyn Williams, Bangor

Mawrth

02 : I’w gyhoeddi

09 : Parchg Dafydd Coetmor Williams

16 : Parchg Eifion W. Williams, Llanfairfechan

23 : Mr Alan Wyn Roberts, Brynsiencyn

30 : Mr Richard Llwyd Jones, Bethel

**Oedfaon am 2.00
oni nodir yn wahanol.
Croeso cynnes i bawb.**

Bwrlwm Bethlehem

Edrychir ymlaen yn fawr at nos Fercher, 26 Chwefror pan fydd criw’r Bwrlwm yn ciniawa yn Bistro Coed y Brenin, i Ddathlu Gŵyl Ddewi.

Cymanfa Talybont

Rhaghysbysiad : Cynhelir 40fed Cymanfa Sul y Blodau ym Methlehem ar 13 Ebrill. Manylion llawn yn y Llais mis nesaf.

Gweddnewid Cae Gwigin a Dolhelyg



Os nad ydych chi wedi bod yn Nhalybont yn ddiweddar, fuasech chi ddim yn adnabod rhannau o’r pentref!

Mae yna brysurdeb mawr gyda gwelliannau sylweddol yn cael eu gwneud i nifer helaeth o dai Cae Gwigin a Dolhelyg. Mae’r preswylwyr wedi gorfod gadael eu cartrefi tra bod hyn yn digwydd dros y misoedd nesaf. Edrychwn ymlaen at weld y gwaith yn cael ei gwblhau, ac at gael estyn croeso’n ôl i’r preswylwyr i gartrefi o safon uchel iawn!

Eglwys Maes y Groes, Talybont

Ar y dydd Mawrth cyntaf o’r mis cynhaliwyd bwffe yn yr Ysgoldy mewn gwerthfawrogiad i glwb cerdded Bethesda am ein cefnogi yn fisol yn y boreau coffi.

Cydymdeimlwn â Phyllis Davies yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer Blodwen yn sydyn iawn yn Aberystwyth yn ystod y mis. Mae ein cofion at y teulu i gyd.

Cydymdeimlwn hefyd â Bethan Griffiths, Bro Emrys, sydd wedi colli ei chwaer, Mair, yn Nyffryn Ardudwy.

Croeso gartref i Grace Griffiths yn dilyn seibiant ym Mhlas Pengwaith, Llanberis, ac yn ôl pob golwg wedi mwynhau ei hun yn fawr.

Ar y Sul, 12fed o Ionawr, bedyddiwyd Lacey Lilly, sef merch Emma a gorwyres i Vic a Morfudd, 24 Bro Emrys.

Glasinfryn Caerhun

Marred Glynn Jones
2 Stryd Fawr, Glasinfryn,
Bangor LL57 4UP
01248 351067
Marred567@btinternet.com

Anfon Cofion

Anfonwn ein cofion a’n dymuniadau da at Miss Margaret Griffith, Caerhun sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Anfonwn ein cofion hefyd at Mrs Mair Griffiths, Waen Wen sydd wedi anafu ei phen-glin yn ddiweddar. Gobeithio fod yr hen ben-glin yn bihafio ac yn gwella erbyn hyn!

Clwb Cant

Penderfynwyd gohirio Clwb Cant Canolfan Glasinfryn y mis yma er

mwyn rhoi digon o amser i gasglu ynghyd arian yr holl aelodau am y flwyddyn i ddod. Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi ail-ymaelodi. Mae Pwyllgor Rheoli’r Ganolfan yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn fawr iawn. Mae incwm y Clwb Cant yn bwysig iawn gan ei fod yn cyfrannu at y gost o gynnal a chadw’r Ganolfan.

Cais Llwyddiannus

Mae Pwyllgor Rheoli’r Ganolfan yng Nglasinfryn wedi bod yn llwyddiannus gyda’u cais am grant gan Gyngor Cymuned Pentir. Mae’r Pwyllgor wedi derbyn sic eam £1,680 gan y Cyngor sydd am dalu am waith cynnal a chadw pwysig i’r adeilad gan gynnwys drws ffrynt newydd. Mae’r Pwyllgor wrth eu boddau ac yn diolch i’r Cyngor am eu cefnogaeth.

Holi cwestiwn

Llongyfarchiadau i David Williams, Fferm Tyddyn

Heilyn, Caerhun ar ei ymddangosiad ar y rhaglen Pawb a’i Farn ar S4C yn ddiweddar. Roedd y rhaglen yn cael ei darlledu o Fethesda, ac roedd David yn un o’r rhai wnaeth ofyn cwestiwn i aelodau’r panel yn ystod y rhaglen.

Dymuniadau Gorau

Anfonwn ein dymuniadau gorau at Mair Williams, Hen Dŷ, Tyddyn Heilyn, Caerhun sydd ddim wedi bod yn dda yn ddiweddar, ac o’r herwydd wedi gorfod treulio cyfnodau yn yr ysbyty. Mae pawb yn meddwl amdanoch ac yn cofio yn annwyl iawn atoch, Mair.

Bingo

Cynhaliwyd nifer o nosweithiau Bingo llwyddiannus yn y Ganolfan yn ystod 2013. Llwyddwyd i hel cyfanswm o £754 tuag at achosion da lleol. Dyma’r elusennau a gefnogwyd yn ystod y flwyddyn: Ysgol Feithrin Penrhos - £158; Ambiwllans Awyr Cymru - £154; Sefydliad Achub Mynydd Dyffryn Ogwen - £120; Apêl Eleanor Jones - £105; Cymdeithas Strôc - £105; Ysgol Pendalar - £120.

Sefydliad y Merched

Dyma ni yn cychwyn ar ein rhaglen am y flwyddyn newydd wedi gwledda a chrwydro i’r Venue yn Llandudno yn ystod mis Rhagfyr. Diolch i Mair am drefnu, a gobeithiwn gael ei chwmni yn fuan iawn oherwydd iddi gael anffawd i’w phen-glin ddechrau’r mis a bu yn yr ysbyty. Ar hyn o bryd mae’n gaeth ac ar ei baglau ond dymunwn adferiad buan iddi ac edrychwn ymlaen at ei gweld yn fuan.

Croesawyd yr aelodau gan Sarah Flynn gan ddymuno blwyddyn lwyddiannus i’r Sefydliad. Clywsom fod Cora Fielding, cyn-lywydd ac aelod, bellach wedi ymgartrefu yn Nantwich a dymunwn bob hapusrwydd iddi yn ei chartref newydd.

Ein gŵr gwadd oedd Graham Williams o’r C.C.W ac yn Warden yn Llanddwyn. Cawsom hanes diddorol y tirlun arbennig a môr o wybodaeth am natur yr ardal, y bywyd gwyllt, y planhigion anghyffredin a phrin a’r newidiadau sydd wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dangosodd Graham fap o'r ardal sydd wedi ei rannu yn dwyni tywod, lle mae celyn y môr yn tyfu, y maestir sy’n gwarchod y planhigyn tlws “llygad doli”, yna tir gwlyb lle gwelwyd tegeirian y gors, y morfa a'r llwylys (scurvy grass). Yna, Ynys Llanddwyn, y creigiau, y goedwig a'r Warren lle mae 120 o geffylau yn pori.

Ardal ddiddorol a warden brwdfrydig! Ond y môr sy’n dylanwadu ar y tir, a chawn enghraifft o hyn ar ôl y stormydd garw yn ddiweddar oherwydd mae tunelli o dywod o’r twyni wedi diflannu yn ôl i’r môr. Unwaith eto mae natur yn gofalu am ei hun!

Cawsom noson ddysgedig yng nghwmni Graham sydd yn wybodus tu hwnt o’r ardal ac yn amlwg yn mwynhau ei waith i’r eithaf.

Diolchwyd iddo gan Ingrid Farrer, hithau yn rhyfeddu at yr wybodaeth ddiddorol o’r ardal hynod o hyfryd hon.

Darparwyd lluniaeth gan Kath Jones, Jean Pierce a Margaret Owen a rhoddwyd y raffl gan Sarah Flynn.

Pentir

Anwen Thomas,
Min yr afon
11 Rhydygroes, Pentir
☎ **01248 355686**

Eglwys Sant Cedol

Clwb 100 Mis Rhagfyr 2013
1af Rhif 2 Kim Roberts
Rhiwlas
2ail Rhif 20 Roger Butler
Abertawe
3ydd Rhif 41 Phyllis Jones
Rhiwlas

Clwb 100 Mis Ionawr 2014
1af Rhif 37 Ian Russel
Llandygái
2ail Rhif 9 Beryl Williams
Bethesda
3ydd Rhif 2 Kim Roberts
Rhiwlas

Cofion
Fel Eglwys dymunwn wellhad buan i ddwy o'n cyfeillion sef Margaret Griffiths, Caerhun, yn dilyn llawdriniaeth a Mai Williams, Bro Rhiwen, Rhiwlas sydd yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd, brysiwch wella eich dwy.

Anfonwn ein cofion hefyd at Anti Maggie, Rhes Penrhyn, Waun Pentir a Bill, Glyn Cottage, Nant y Garth, y ddau sydd ddim yn dda eu hiechyd yn eu cartrefi, dan ofal tyner eu hanwyliaid. Cofion cynnes at y ddau ohonoch.

Gwasanaethau’r Sul
Sul 1af y Mis - cymun Teuluol
2ail a 4ydd Sul y mis - Boreuol Weddi
3ydd Sul y mis - Cymun Bendigaid
5ed Sul y mis - Gwasanaeth ar y cyd

Mae’r gwasanaethau i gyd am 9.45 am, bydd croeso cynnes i bawb fynychu’r gwasanaethau.

Rhiwlas

John Huw Evans,
30 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎**352835**

Geni
Llongyfarchiadau i Daniel a Cheryl, 2 Rhes Uchaf ar enedigaeth eu merch fach, Alisha Marie, ar Ragfyr 31ain, chwaer fach i Jason, Llŷr ac Ifan. Dymunwn iechyd a hapusrwydd iddynt fel teulu.

Dyweddïo
Dymuniadau gorau i Elliw Mai, merch Ieuan a Donna Hughes, Gwelfryn ar ei dyweddïad gyda Rob, mab Pete a Joyce Gaffey, Bethel. Pob dymuniad da am ddyfodol hapus a llewyrchus i’r ddau.

Baw Cŵn
Yn anffodus, y mae rhai perchnogion yn gadael i’w cŵn faeddu palmentydd a ffyrdd y pentref. Y mae hyn yn hynod beryglus i iechyd, heb sôn am fod yn ddolur i’r llygaid. Mae’r cynghorwyr yn cydweithio gyda swyddogion y cyngor er mwyn ceisio gwella hyn.

Tregarth

Gwenda Davies,
Cae Glas,
8 Tal y Cae, Tregarth
☎ **601062**

Olwen Hills (Anti Olwen),
4 Bro Syr Ifor,
Tregarth
☎ **600192**

Llwyddiant Cerddorol
Llongyfarchiadau i Aziliz Kervegant, Tan Dderwen am lwyddo yn ei arholiad Soddgrwth Gradd 5 a hynny gydag Anrhydedd. Mae Aziliz yn ddisgybl yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy.

Dymuno pen-blwydd hapus
Gobeithio bod achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 70 ar ddechrau’r flwyddyn wedi bod wrth fodd yr ‘Hogyn o Sling’. Rydym i gyd yn nabod John Ogwen ac yn dymuno’n dda iddo i’r dyfodol fel un o brif actorion Cymru. Dathlwyd mewn steil yng Nghaerdydd pan gafodd gwmni Côr y Penrhyn i recordio ar gyfer rhaglen deledu ar S4C. Braf oedd gweld rhai rhifynnau o ‘Deryn’, a daeth â lluo o atgofion i’r rhai a welodd y rhaglenni gwreiddiol yn yr 1980au. Pob dymuniad da, John, gan dy holl ffrindiau yn Nyffryn Ogwen.

Gwaeledd
Bu Mona Thomas, Bro Derfel yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri am gyfnod yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion at Mona ac at Gwynfor ei gŵr gan obeithio am well iechyd yn 2014.

Profedigaeth
Daeth y newyddion am farwolaeth un o drigolion gwreiddiol Tregarth, sef Hugh Grey Roberts (Hugh Banc Lloyds, Biwmares), ar Ionawr 9 yn Ysbyty Gwynedd. Maged Hugh yn Tal Gae, Tregarth, ac mae amryw o drigolion y pentre yn ei gofio’n dda. Cydymdeimlwn gyda’i ferch Shan a’r teulu yn eu profedigaeth.

Daeth tristwch dros yr holl ardal pan ddaeth y newyddion annisgwyl am farwolaeth Ellen Pritchard (Elin Llety) ar Ionawr 19 a hithau’n 81 mlwydd oed. Roedd Elin yn byw yn Llety, Sling ac yn wraig i’r diweddar Gwilym. Ganed Elin ym Metws y Coed ac yna symudodd y teulu i fyw yn Nhŷ Capel, Rowen. Roedd yn adnabyddus i bawb yn y gymdogaeth. Roedd yn gymeriad o’r iawn ryw ac yn llawn bywyd ac egni. Bob amser yn barod am sgwrs ac am helpu unrhyw un oedd angen cymorth. Gweithiodd yn ddygn i gefnogi popeth yn y pentre ac yn Nyffryn Ogwen. Doedd dim yn ormod gan Elin. Anfonwn ein cydymdeimlad

llwyraf gyda’r hogiau Dafydd, Gareth, Glyn ac Alun, a’u gwragedd Caryl, Eileen, Shirley a Manon. Roedd wrth ei bodd yng nghwmni ei phedair wyres, sef Rhian, Nia, Emily ac Ela Mai. Roedd Elin yn chwaer annwyl i Eifion a Iola a’r diweddar Dei. Bu’r angladd yng Nghapel Shiloh, Tregarth ddydd Gwener, Ionawr 24 dan ofal y Parchedig Huw John Hughes, Porthaethwy, ac yna rhoddwyd hi i orffwys ym mynwent Eglwys y Gelli, Tregarth.

Cydymdeimlad
Ar Ionawr 28, yn ei chartref 24 Erw Faen bu farw Jane Simpson yn 89 mlwydd oed. Roedd hi a’i phriod Ernest wedi byw yn Erw Faen ers blynyddoedd lawer a bydd colled a hiraeth mawr ar ei hôl. Yn ogystal â Ernest ei phriod, gedy hefyd ei phlant Roy, Shirley, Colin a Sandra a’i hwyron. Bu ei hangladd yn Amlosgfa Bangor ddydd Mawrth, Chwefror 4. Cydymdeimlwn gyda’r teulu yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn gyda Dominic a Ffion Kervegant a’r genod Elin, Gwenno ac Aziliz, Tan Dderwen, yn eu profedigaeth ddiweddar. Bu farw tad Dominic yn ei gartref yn Llydaw ar Ionawr 25. Mae Dominic yn athro yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy.

Eglwys y Santes Fair

Gwasanaethau

Chwefror
23: Cymun Bendigaid

Mawrth
02: Boreol Weddi
09: Cymun Bendigaid
16: Boreol Weddi
23: Cymun Bendigaid

Pob gwasanaeth am 9.45 y bore

Clwb 100

Mis Rhagfyr
1) £15 - 95 Alwena Williams
2) £10 - 30 Matthew Smith
3) £ 5 - 96 Laura Jones

Mis Ionawr
1) £15 - 149 Elsie Lake
2) £10 - 125 J Gordon
3) £ 5 - 121 Eirwen Williams

Cynhaliwyd Ffair Nadolig lwyddiannus ar 3 Rhagfyr. Gwnaed elw o £350. Bydd te bach yn cael ei gynnal ddydd Llun, 24 Chwefror am 2.00 y prynhawn, a hefyd te crempog ddydd Llun, 4 Mawrth am 2.00 y prynhawn.

Nid yw rhai o’r plwyfolion wedi bod yn dda yn ddiweddar. Ein cofion at bawb ac yn enwedig at Keith, Mair, Margaret a Brenda.

Tregarth (parhad)

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Beti Morris, Ffordd Tanrhiw. Mae Bet bellach yn hen nain i chwech o blantos bach. Cyrhaeddodd yr un diwethaf, sef Ifan, yn ystod mis Ionawr i Mari a’i phriod, ac mae Mari yn ferch i Rhiannon ac Irfon.

Merched y Wawr, Cangen Tregarth

Bu cyfarfod Mis Chwefror yn Festri Capel Shiloh, Nos Lun, Chwefror 3. Er bod y tywydd yn echrydus roedd y festri yn llawn i’r ymylon ac ni chafodd neb ei siomi.

Yr awdures a’r ymgyrchydd iaith, Angharad Tomos, Penygroes oedd y wraig wadd a dewisodd sgwrsio ar y testun ‘Crwydro’. Cychwynnodd drwy ddweud mai yma yn Nhregarth y cafodd ei gwyliau cyntaf, yng nghartref ei nain a’i thaid yn Arfryn, ac yna i Fethesda pan symudodd y teulu i fyw yno. Yn un o bump o ferched, cawsom hanes y teulu yn carafanio mewn lleoedd megis Abersoch a glannau môr Ynys Môn cyn mentro ymhellach i’r Alban a mannau eraill yn Lloegr ac Iwerddon. Roedd ganddi restr hir o bethau i beidio â’u gwneud wrth fynd ar wyliau ac roedd pawb yn chwerthin lond eu boliau wrth glywed am rai o’r helyntion ddigwyddodd iddi ar wyliau. Does dim rhaid dweud cymaint o bleser oedd gwrando ar Angharad.

Diolchwyd iddi am noson anfarwol, er gwaetha’r tywydd, gan Gwenda a Brenda Wyn. Noddwyd y noson gan Llenyddiaeth Cymru. Noson nad anghofir yn fuan oedd hon. Cinio Gŵyl Ddewi ym Mwyty Tŷ Golchi, Bangor fydd digwyddiad nesa'r gangen a hynny ar Fawrth 3. Os am fwy o fanylion cysylltwch gydag Anwen ar 601262 neu Gwenda ar 601062. Bydd adloniant gan Stephen Rees a’i Fand.

Clwb 100 Canolfan Tregarth

Mis Ionawr

23 Gwenda Davies	£15
35 Tudor Jones	£10
17 Bessie Buckley	£5

Llogi Canolfan Tregarth

Os ydych eisiau cynnal gweithgaredd yn y ganolfan,

yna cysylltwch â

Peter Roberts 602123, Angharad Williams 601544 neu Rhys Llwyd 601606

Capel Shiloh

Yr Ysgol Sul am 10.30 bob bore Sul Gwasanaeth hwyrol am 5 o’r gloch

Chwefror 16	Parchedig Dafydd Hughes, Caernarfon
Chwefror 23	Parchedig Idris Thomas, Dinorwig
Mawrth 2	Parch. Gwynfor Williams
Mawrth 9	Islwyn Hughes, Llangoed
Mawrth 16	Parchedig Philip Barnett
Mawrth 23	J.O. Roberts, Bethesda
Mawrth 30	Parchedig Harri Owain Jones, Llanfairpwll

Ysgol Sul Shiloh
Ymddiheuriadau mawr i Esme a Luke Crowe am i’w henwau fethu ag ymddangos yn y rhifyn diwethaf o’r Llais yn rhestr yr ieuentid a gymerodd ran yng Ngwasanaeth y Nadolig yn Shiloh. Blerwch ar ein rhan ni ! Sori mawr !

Dathlodd trysorydd prysur a diwyd Capel Shiloh, sef Mrs Eirwen Williams, Tyddyn Dicwm, ben-blwydd arbennig iawn ym mis Rhagfyr. Pen-blwydd hapus hwyr i Eirwen.

Y Gwyliedydd
Y Gwyliedydd ydi cyfnodolyn Synod Cymru yr Eglwys Fethodistaidd ac mae ganddo ddau olygydd newydd sbon, sef Ffion Rowlinson, Llanllechid sydd yn aelod yn Shiloh a Robin Jones, Bethel. Mae’r rhifyn cyntaf y maent wedi’i olygu newydd ddod allan o’r wasg ac mae’n rhifyn gwerth chweil. Pob lwc i’r ddau ohonoch yn y gwaith pwysig o arwain *Y Gwyliedydd* i’r dyfodol. Bu’r cyn-olygydd, sef Gwyndaf Roberts, gynt o Faes Coetmor, Bethesda ac yna o Lanfair Caereinion yn gwneud y gwaith o olygu ers blynyddoedd gyda chymorth ei wraig, Hafwen, a dymunwn ddiolch iddynt am eu holl aberth ac amser yn eu hymwneud â’r cyfnodolyn. Dymunwn yn dda a chofiwn atynt yn gynnes yn eu cartref newydd ym Mhontypridd. Diolch Gwyndaf a Hafwen.

Gweinidog newydd i Shiloh
O fis Mawrth ymlaen fe fydd gan Shiloh Weinidog newydd. Oherwydd gwaeledd Mr Merfyn Jones, Caernarfon a oedd yng ngofal Capel Pisgah, Rhiwlas a Salem, Ty’n Lôn, Llanwnda, mae’r Parchedig Gwynfor Williams yn symud o fod yn Weinidog Shiloh i fod yng ngofal Pisgah, Rhiwlas yn ogystal â Chapeli Ebeneser, Caernarfon a Saron, Bethel. Y Diacon Stephen Roe fydd yn Weinidog ar Salem, Ty’n Lôn o Fis Mawrth ymlaen. Mae ein dyled yn fawr yn Shiloh i’r Parchedig Gwynfor Williams sydd wedi bod yn Weinidog yma am gryn amser. Rydym yn diolch o waelod calon iddo am ei holl waith ac yn anfon ein cofion hefyd at ei briod, Mrs Katie Williams, am ei chymorth hithau yn ystod y blynyddoedd. Bydd cyfarfod arbennig yn cael ei drefnu yn Shiloh yn fuan i ddiolch iddo am ei arweiniad a’i waith diflino yma yn ein mysg. Mwy o fanylion i ddilyn. Gweinidog newydd Shiloh fydd y Parchedig Philip Barnett fydd yn dychwelyd atom i’n harwain i’r dyfodol. Bydd croeso cynnes iawn iddo yn yr ardal a dymunwn y gorau iddo ef a’i briod, Catherine, ar eu dychweliad i Shiloh.

TREGARTH FY MHLENTYNDOD

(Rhan 1)

Roedd fy nghartref ym Mraichtalog yn o agos i ran o blanhigfa goed a adnabyddid gan bawb yn Nhregarth fel Parc Dob, ac yn y goedwig dywyll honno y chwaraewn gyda'm cyfoedion gan amlaf pan oeddwn yn blentyn bach yn y 1950au cynnar. Yr adeg honno, roedd y caeau yng nghyffiniau'r goedwig yn ferw gwyllt o gwningod bywiog, pwt-gynffonnog. Byddai rhai o'r pentrefwyr yn eu dal a'u lladd ac wedyn yn eu defnyddio i wneud stiwl blasus ar gyfer y Sul gan mor brin yr oedd cig ar fwydlen pawb yn y dyddiau hynny yn gynnar wedi i'r Ail Ryfel Byd ddod i ben. Er gwell neu er gwaeth, nid oes yr un gwningen yn y caeau crybwylliedig bellach oherwydd fe gawsant eu lladd wrth y fil ymron dros nos oddeutu 1954 gan bla eithriadol o heintus o'r enw micsomatosis.

Mae Craig Dob ar bwys un gornel o'r goedwig lle chwaraewn pan oeddwn yn blentyn. Mae'r olygfa o bentref Tregarth o ben Craig Dob yn ddihafal, a dweud y lleiaf. Mae'r holl bentref ymron iawn yn weladwy oddi yno o gapel Penygroes hyd at eglwys Y Gelli a'i mynwent sydd yn sefyll mewn unigedd urddasol ar y mymryn lleiaf o godiad tir ym mhen draw’r gwastatir y tu hwnt i Bont Twll Coch .

Clywais John Bach Rhes - John Ogwen i chi ! - yn canu *Bless This House* yn eglwys Y Gelli un nos Sul ddegawdau lawer yn ôl. Amcanaf mai oddeutu 1958 ydoedd. Fodd bynnag am hynny, roedd yr eglwys dan ei sang ar y pryd a gallech glywed pin yn disgyn ynddi pan ddaeth yn adeg i John ganu. Roedd ganddo lais soprano hyfryd a'r noson honno fe ganodd fel eos. Y cyfeilydd oedd y diweddar Mr Bertie Williams o Penrhyn View Terrace. Ef oedd organydd yr eglwys ar y pryd. Wrth bwys Eglwys Y Gelli mae adeilad go fawr wedi'i amgylchynu gan goed uchel a oedd yn gartref i enethod bach amddifad yn y gorffennol. Bu'r diweddar Athro Ellis a'i ymadawedig wraig a oedd yn Ynad Heddwch yn byw ynddo pan oeddwn i'n blentyn bach. Wn i ddim ym mha brifysgol yr oedd yr Athro Ellis yn dal cadair nac ychwaith beth oedd maes ei arbenigedd.

Wrth ddilyn y B4409 gyda'ch llygaid o ben Craig Dob o eglwys Y Gelli i gyfeiriad Tregarth, yr adeilad mawr nesaf o bwys a welwch yw capel Shiloh. Fe berthyn i'r Wesleaid. Hwn oedd y capel mwyaf ym mhentref Tregarth a hwn yw'r unig gapel yno bellach y mae'i ddrysau'n dal yn agored i addolwyr. Bu'r diweddar E.Tegla Davies, a fu farw yn 1967, yn bugeilio'r eglwys hon deirgwaith. Roedd hefyd yn awdur toreithiog. Ychydig yn uwch i fyny'r ffordd o Shiloh ar yr ochr arall iddi mae safle hen siop y diweddar Mr Alfred Pritchard. Roedd y siop ar bwys Pont Penrala.

Corrach archfarchnad y pentref oedd siop Mr Pritchard pan oeddwn i'n blentyn yn Nhregarth erstalwm, a'i henw ar dafod leferydd trigolion y lle oedd Siop Alff. Byddai'r holl bentrefwyr yn gwneud eu neges yno. Roedd y lle'n gyforiog o nwyddau bwytaol o bob math a byddai arogl praff cig moch, coffi a chaws yn llenwi'ch ffroenau yno. Byddai Mr Pritchard yn gallu adio colofn hir o ffigyrau cyn i chi allu agor eich ceg a hynny'n ddi-ffael bob tro. Yn llygaid fy nychymyg, gallaf ei weld y funud hon mewn siaced liain laes frown golau yn gwyro ymlaen dros gownter ei siop yn adio cownt un o'i gwsmeriaid a'i sbectol ar flaen ei drwyn. Roedd golwg iach arno a byddai'n cribo'i wallt arianwyn yn ôl yn ddidonnau ar dop ei ben.

Etifeddwyd siop Alff gan berthynas iddo o'r enw Mr Gwylfa Pritchard. Bu ef farw o drawiad ar ei galon tra ar wyliau yn agos i Bwllheli. Angladd y diweddar Mr Gwylfa Pritchard oedd yr un mwyaf a welodd trigolion Tregarth erioed. Bu'n hedfan hofrenyddion ar un adeg. Ar y buarth bach o flaen Siop Alff y bu farw Mr Evan Williams un bore yn y 1970au cynnar tra'n disgwyl bws gyda'i gydweithwyr i'w gludo at ei waith yn Chwarel Cae. Ef oedd arweinydd y gân yng nghapel Chwarelgoch gynt. Mae Siop Allff wedi hen gau'i drysau erbyn hyn ac ysywaeth, pan oedd fy ngwraig a minnau'n pasio'r lle yn ein moto ddiwethaf, roedd golwg echrydus ar yr adeilad a oedd o bwys mawr i bentrefwyr Tregarth ar un adeg.

Dafydd Llewelun (gynt o Dregarth).

Mynydd Llandygái

Theta Owen.
Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygái.
☎ 600744

Cydymdeimlad
Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs Maureen Hughes, Arafon ar golli ei mam, Mrs Betty Wyn Davies ar ddiwrnod y Nadolig. Colled fawr i'r teulu! Rydym yn meddwl amdanoch.

Gair o Ddiolch
Dymuna Janet, Rheinallt a Rhys Williams, Chwarel Goch isaf ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt wrth golli gŵr a thad arbennig.

Diolch hefyd am y rhoddion er cof am Gwyn, a rannwyd rhwng mudiadau plant a phobl ifanc Mynydd Llandygái.

Diolch
Dymuna Maureen, Terry a'r teulu ddiolch o galon am y cardiau, galwadau ffôn a phob arwydd o gydymdeimlad a gafwyd yn eu profedigaeth.

Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair

Chwefror
23: Gwasanaeth Teuluol 9.45

Mawrth
09: Cymun Bendigaid (Saesneg) 9.45
16: Cymun Bendigaid
23: Boreol Weddi 9.45
30: Sul y Fam - Cymun Eglwys Crist,
Glanogwen 9.45 (Yr unig wasanaeth yn y plwyf y Sul hwn).

Ein dymuniadau gorau i bawb sy'n sâl yn eu cartrefi neu yn yr ysbyty. Anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd. Cofiw'n yn arbennig am Pete Rickard sydd yn yr ysbyty yn Lerpwl ar hyn o bryd. Mae pawb yma yn cofio amdanoch ac yn dymuno gwellhad buan i chwi.

Canolfan Cefnfaes BETHESDA GYRFA CHWIST

Chwefror 25
Mawrth 11 a 25
am 7.00 o'r gloch

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr

**Cyfeillion
Ysbyty Gwynedd
Stondin Tombola**
ym Marchnad Ogwen
(CLWB RYGBI)
Sadwrn 8 Mawrth 2014
10.00 - 12.00

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

CAFFI COED Y BRENIN 1 Rhes Buddug, Bethesda

Cynhelir
**Cyfarfod Blynyddol
Plaid Cymru
Dyffryn Ogwen**

Nos Fawrth, 25 Chwefror am
7.00 o'r gloch.

Siaradwr Gwadd:

Marc Jones
(Ymgeisydd Etholiad Ewrop)
Darperir lluniaeth ysgafn.

Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen

**DARLITH GOFFA
RHIANNON ROWLANDS**

Elin Gwyn
**'Dehongli Portreadau Cyfoes
o'r Bröydd Chwarelyddol'**

7.00 o'r gloch
Nos Lun 10 Mawrth 2014
yn Ffestri Capel Jerusalem

£1.50 wrth y drws
neu am ddim i aelodau

Caffi Coed y Brenin

**Bore Coffi
Plaid Cymru
Dyffryn Ogwen**

Sadwrn 01 Mawrth
10.00 - 12.00
Mynediad £1.00

Marchnad Ogwen

Yr ail ddydd Sadwrn yn fisol
10am - 2pm

8 Mawrth
Yn y Clwb Rygbi, Bethesda

10 Ebrill
Yn y Clwb Rygbi, Bethesda

Bwydydd, Crefftau, Caffi

www.marchnadogwen.co.uk
Twitter #marchnadogwen
Facebook

Marchnad Ogwen

Dyma un arall o Stondinau Marchnad Ogwen i chwi. Caws Gafr Richlin yw enw'r stondin hon ac wrth gwrs mae'r cynnyrch sydd ar y stondin yma yn amlwg iawn!



Richard Hurst yw enw perchennog y stondin. Mae o a'i wraig Linda yn cadw geifr ar fferm ym Mryncroes, Pen Llŷn. Mae'r geifr yn rhydd i bori yn naturiol yn y caeau a'r gwrychoedd ac mae hyn yn creu caws sy'n blasu'n unigryw meddai Richard.

Mae'r ddau yn creu caws meddal a chaws gweddol feddal wedi ei basteureiddio, a chaws caled sydd ddim wedi ei basteureiddio. Mae'r holl gawsiau wedi eu gwneud â llaw o lefrith y geifr ar y fferm.

Mae'r caws caled yn aeddfedu am leiafswm o 60 niwrnod cyn y bydd yn cael ei werthu. Mae'r holl gawsiau yn addas i lysieuwyr ac wedi eu creu mewn dulliau traddodiadol. Mae enwau lleol i'r gwahanol gawsiau e.e. Porth Colmon yw'r caws gwyn math Stilton. O bryd i'w gilydd, mae cig myn gafr ar gael a byrgers a selsig cig gafr.

Newyddion o'r Farchnad
Cyfeillion Ysbyty Gwynedd sydd yn cynnal y Stondin Elusen yn mis Mawrth. Gorffennaf yw'r mis nesaf sy'n rhydd. Mae dwy stondin newydd yn cychwyn ym mis Mawrth, un yn gwerthu siocled a'r llall yn gwerthu coffi - gwahanol ffa coffi mewn pacedi. Mae Stondin Moelyci yn gwerthu cig lleol wedi ei rewi. Mae angen stondin i werthu caws arnom - ond nid caws gafr wrth gwrs. Mae'r Caffi yng ngofal y perchnogion newydd wedi ennill ei le. Roedd cawl cartref mis Ionawr yn fendigedig! Bydd y Farchnad nesaf Mawrth 8fed yn y Clwb Rygbi. Croeso cynnes wrth gwrs.

Caffi Coed y Brenin

**Bore Coffi
Cyfeillion
Ysbyty Gwynedd**

Sadwrn 15 Mawrth
10.00 - 12.00
Mynediad £1.00

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Dyddiadur Digwyddiadau 1865-1866

1867

- Saith o ysgolion dyddiol yn y ddau blwyf, 5 o Ysgolion Cenedlaethol a 2 Ysgol Frutanaidd, gyda bron i 2000 o blant yn derbyn addysg ynddynt.
- Dydd Gŵyl Ddewi: Eisteddfod Gadeiriol Bethesda: William Parry (Llechidon) yn fuddugol ar draethawd ar y testun: ‘Hanes Llenyddiaeth ac Enwogion Llanllechid a Llandegai’.
- Adeiladu Capel y Gerlan. Tua 100 o aelodau Capel y Carneddi yn symud yno i sefydlu'r Achos.

1868

- Cyhoeddi Hanes Llenyddiaeth ac Enwogion Llanllechid a Llandegai gan William Parry (Llechidon). Gwerthwyd 1500 o gopïau ohono (am swllt y copi).
- 1400 o ran-ddaliadau, gwerth £1 yr un, wedi cael eu cymryd yn y Neuadd Bentref newydd y bwriedid ei chodi ym Methesda. Roedd mwyafrif o blaid cael Marchnad a Neuadd Gyhoeddus ar y cyd ‘as the present dirty and unsightly building can scarcely be said to constitute an “accommodation”’.
- 11/1868: Syr Love Jones Parry yn sefyll yn erbyn George Sholto Douglas Pennant mewn etholiad seneddol a'i drechu â mwyafrif da.
- Adeiladu Capel Carneddi am y drydedd waith.
- Nifer yn mynychu'r Ysgol Sul ym mhlwyfi Llanllechid a Llandegai: tua 6000.

1869

- 16-17/01/1869: Cyfarfod agoriadol Capel newydd y Carneddi.
- Dydd Iau Dyrchafael, 1869: Agor Capel y Gerlan (MC). Roedd yr holl draul dros £2000. Dechreuwyd pregethu yn yr ystafell dan y capel cyn i'r capel ei hun fod yn barod. Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig ar achlysur cau Capel y Gerlan, 23/01/1994.
- 03/04/1869: Y Bwrdd Lleol (rhagflaenydd y Cyngor Dinesig) yn penderfynu newid enw Dan Street yn Long Street, ac Ishmael Street yn Short Street.

1870

- 80 o chwarelwyr yn cael eu diswyddo yn Chwarel y Penrhyn heb unrhyw achos gan yr awdurdodau er y gwyddid yn iawn mai

oherwydd eu rhan yn y streic i sefydlu Undeb yn 1865 neu o achos eu rhan yn Etholiad 1868 y cawsant eu diswyddo.

- 02/1870: Geni D. J. Williams (prifathro cyntaf Ysgol y Sir, Bethesda o 1895 tan 1933) yng Nghaerffili.
- 12/1870 (ar noson Sadwrn olaf y mis): Agor Capel Salem, Carneddi.

1871

- 18-19/03/1871: Agor adeilad newydd Capel Peniel (MC), Mynydd Llandygái. Costiodd y capel £431 i'w adeiladu.
- Agor Ysgol y Gerlan. Adeiladwyd gan yr Arglwydd Penrhyn ond trosglwyddwyd i'r Eglwys ym mis Mawrth 1872.

1872

- 06/1872: Agor Capel Siloam (W), ar Allt Pen-y-bryn. Adeiladwyd Tŷ Gweinidog yr un pryd ag y codwyd y Capel. Rhoddwyd y tir ar brydles gan yr Arglwydd Penrhyn i godi'r Capel ac yna, ym 1939, daeth yn llwyr eiddo'r Eglwys drwy rodd gan Stad y Penrhyn.
- 26/05/1872: Marw'r cerddor David Roberts (Alawydd) yn 52 oed; claddwyd ef ym Mynwent Glanogwen.
- 01/12/1872 (Nos Sul): Nifer yn bresennol yn rhai o Eglwysi a Chapeli Plwyf Llanllechid: Eglwys Llanllechid: 327; Eglwys Glanogwen; 207; Bethlehem: 178; Brynteg: 248; Bethesda: 565; Carmel: 267; Carneddi: 392; Gerlan: 294; Jerusalem: 386; Peniel: 327; Salem: 211; Siloam: 349; Tabernacl: 147; Treflys: 157; a hynny'n gwneud cyfanswm o 4055 o bobl mewn 14 o addoldai.

I'w barhau

Taith o amgylch y fro - gydag Arwyn Oliver

Taith 8 - Pont Ogwen


Taith fach arall i geisio cadw'n traed yn sych!!

Cychwyn ger Meddygfa'r Hen Orsaf a cherdded heibio tai Lôn Sarnau, Ffatri G L Jones ac at Bont Sarnau. Croesi'r bont a dilyn y llwybr i gyfeiriad Ffranon View.

Wedi cyrraedd y lôn gefn, troi i'r chwith gan gerdded heibio'r Stad Ddiwydiannol ac anelu am y Felin Fawr. Troi i fyny i'r dde a dilyn y Lôn Las drwy'r iard - y llwybr wedi ei arwyddo'n dda. Croesi'r rheilffordd a cherdded dan y bont gan ddilyn llwybr Lôn Las Ogwen. Cadw ar y llwybr gan ddilyn godre'r tomennydd nes cyrraedd y ffordd sy'n arwain i'r chwarel (rhyw 20 munud o gerdded).

Croesi ffordd y chwarel a mynd drwy'r giât sydd o'ch blaen. Bydd y llwybr yn dilyn Afon Ogwen. Wedi cyrraedd y rhaeadr (a chael 5 munud ar y fainc i'w edmygu), croesi Pont Ogwen a cherdded heibio mynedfa'r maes carafanau at y lôn bost. Troi i'r chwith a cherdded i lawr y pafin i gyfeiriad Bethesda.

Ar ôl cyrraedd y groesffordd, troi i'r chwith a chroesi Pont Tŵr, a dilyn y lôn gefn heibio hen ysgol Ty'n Tŵr



fydd ar y chwith i chi. Ymhen rhyw 200 metr, fe sylwch ar Lwybr Y Llawfeddyg ar y dde sy'n mynd â chi trwy Barc Meurig.

Dilyn y llwybr a chanlyn yn afon i lawr at Bont Ring. Croesi'r bont gan ddod allan ar y Stryd Fawr. Cerdded i lawr y stryd yn ôl am yr Hen Orsaf.

Pellter: Tua 3 milltir
Amser: Awr a hanner
Math o daith: Hamddenol
Offer: Esgidiau addas.

Dewiswyd y daith yma gan fod llwybrau da arni (er bod pyllau dŵr ar ambell ran o'r Lôn Las).

“Gwneud Gwahaniaeth”

Opsiynol: Bag siopa plastig gwag a phâr o fenig i godi rhywfaint o'r sbwriel sydd yn hagra llwybrau'r ardal. Pe byddai pob cerddwr yn casglu rhywfaint fe wnâi wahaniaeth. Diolch, a mwynhewch.

OWEN'S TREGARTH

Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260

07761619475



www.owenswales.co.uk

JR SGAFFALDIAU Cyf.
SCAFFOLDING Ltd. JR

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NE
e-bost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:

01248 601754

07770 568743 (symudol)



MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda

♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723

Ffacs: 605068

Tudur Owen, Roberts, Glynne a'u cwmni



DEWCH I WELD
EICH
CYFREITHIWR
LLEOL

SGWÂR BUDDUG
STRYD FAWR
BETHESDA
GWYNEDD
LL57 3AG



BETHESDA
01248 600171
torg@hotmail.co.uk

Cyfreithwyr

Y CYNGOR CYNTAF
AM DDIM

EWYLLYSIAU A
PHROFIANT

SYMUD Tŷ

Ymgymmerwr adeiladu a
gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

Bryan Jones

Clirio tai
Mân-weithiau
Cludiant ysgafn

(Waeth pa mor fychan y dasg)

Ffôn: 01286 673121
Ffôn Lôn: 07527634023

e-bost: bryanrajonesandson@yahoo.co.uk
www.facebook.com/bryanrajonesandson



Glanhauwr Ffenestri
(Lleol a Thraddodiadol)

Darren Williams

Ffoniwch am brisiau
rhesymol

☎ 07929 274126

Malinda Hayward (Gwniadwraig)

Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

I hysbysebu yn y Llais
Cysylltwch â
Neville Hughes ☎ 600853

YSGOL YRRU



07982 076 455

01248 605 325

derfelowen@sky.com



Haulfryn - Llanllechid

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penralla, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257

Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



Nyth y Gân

Ymweld â'r Ddinas

Fel morgrug prysur hyd balmentydd llwyd
Â'u bagiau plastig yno'n llawn o fwyd
A heb yr un cyfarchiad na'r un wên,
Does fawr o le i'r rhain mewn llyfrau llên.

Mae yma lawer siop â'u huchel sain
Yn ceisio denu'r siopwyr â'r iaith fain
Ond gwell pe byddai iddynt dynnu'r llen
I arbed miloedd rhag cael cur pen.

Byddarol hefyd ydi'r ceir a'r mwg
Yn llygru'r awyr efo'u nwyon drwg,
Daw oglau bwydydd rhai o bellter byd
I roddi estron naws i lawer stryd.

Mae hiraeth yn fy llethu'n fwy bob awr
Wrth droedio'n drwm ar hyd ei hestron lawr,
Rwy'n bell o fod yn perthyn i'r fan hyn,
Does yma yr un ffridd, na ffrwd, na llyn.

Bydd breichiau yr hen ddyffryn led y pen
Yn fy nghroesawu'n ôl i'w nefoedd wen,
A bydd yr un cynhesrwydd yn ei gôl
Bob tro y byddai'n dyfod ato'n ôl.

Llwynog y Ddinas

Ni rodia'n awr drwy'r rhedyn, ymunodd
Â mannau y trempyn;
Ni fu ei nâd 'rïoed fan hyn,
I un parth y mae'n perthyn.

Lle llwm yw'r newydd gwmwd, yn fore
Niferus yw'r ffrwgdw;
Oen y ffridd ni wêl, na ffrwd,
Na dim ry damaid amrwd.

Maes o law bydd ei g'nawon yn fodlon
Ar fwydlen o sbarion;
Ni chânt chwa o hela'n hon
Hyd erwau y moduron.

Pedol ar y Drws

Ar ddrws moel cadd ei hoelio oherwydd
Roedd hiraeth wrth gofio
Yr adeg bu dau'n troedio
Wyneb trwm y tir bob tro.

Bedd yr Ast Fach dan Wely'r Eirlysiau

Yn ei bedd hir hedd gaiff hi, a hawlio'r
Un gwely â'r lili,
A nawr yn Ionawr i ni
Daw rhyw wên gyda'r rheini.

Dafydd Morris

CHWILAIR CHWEFROR 2014
DIARHEBION

A	F	A	T	N	Y	C	M	A	C	M	A	C	U	A	R	O	G	A	W
F	R	E	O	I	A	M	S	E	N	N	Y	C	R	W	A	N	O	I	H
R	I	T	S	I	G	I	E	D	D	Y	B	Y	C	S	Y	W	L	G	E
E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I	S	V	S	H	M	E	I
A	C	A	S	T	E	L	L	P	A	W	B	E	I	D	Y	M	I	M	G
T	V	H	M	D	W	H	U	Z	M	X	V	A	D	D	N	I	D	A	P
H	A	U	Q	U	S	O	F	R	P	Y	Q	Z	G	R	H	D	D	C	U
R	M	A	F	O	B	E	N	B	I	D	B	O	N	T	W	A	B	N	O
O	Y	R	I	A	S	Z	U	T	F	D	X	U	P	W	R	N	E	H	C
D	Q	H	W	E	H	O	Y	E	E	G	E	O	M	H	E	R	H	P	T
A	T	C	B	B	C	U	U	J	P	L	T	M	I	V	V	E	W	D	C
Y	B	B	F	R	F	O	G	J	V	I	I	R	R	X	I	N	U	M	H
W	H	I	R	P	O	B	A	R	O	S	T	T	O	S	K	N	D	O	P
A	W	R	C	M	K	C	B	O	R	C	X	V	R	Y	H	A	D	S	T
M	M	R	E	F	Y	J	D	Z	H	B	C	W	O	S	C	H	B	R	A
S	I	H	C	A	R	Y	W	H	A	N	R	Y	W	H	L	L	E	W	G
E	E	L	I	E	R	I	W	G	Y	N	N	Y	F	E	F	L	H	X	N
R	S	Y	L	L	Y	W	E	W	Y	A	D	L	Y	F	F	E	C	I	L
X	J	J	M	B	W	T	E	X	M	D	X	K	F	U	P	W	C	Q	Y
O	I	L	F	E	R	Z	Q	R	O	C	T	D	G	W	S	G	L	Z	E

Y mis yma mae DEUDDEG DIHAREB i'w canfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? Mae LL, CH, DD, TH, NG a RH yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwmpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân.

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos-y-coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3NW. Erbyn **5 Mawrth**. Bydd gwobr o £5 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd neb yn dod o hyd i'r deuddeg yna'r sawl sy'n cael y nifer fwyaf fydd yn cael y wobr.

Roedd y Nadolig wedi drysu rhai ohonoch gan eich bod wedi methu a chanfod atebion chwilair Rhafgyr i gyd, ond yn waeth na hynny roedd y dyddiad cau wedi bod cyn i mi dderbyn eich atebion hefyd. Efallai mai ar y post oedd y bai! Ta waeth, cawsoch well hwyl gyda chwilair Ionawr.

Dyma atebion Ionawr: Abeiam Brenin Jwda, Ahab Brenin Israel, Ahaseia, Dafydd, Herod, Jehoram Brenin Jwda, Jehosaffat, Jeroboam, Omri yn Frenin Israel, Rehoboam, Sisac Brenin yr Aifft, Solomon.

Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir: John a Meirwen Hughes, Abergele; Rosemary Williams, Tregarth; Merfyn a Laura Jones, Tregarth; Mrs G. Clark, Tregarth; Mair Jones, Ffordd Bangor; Marilyn Jones, Glanffrydilas; Elizabeth Buckley, Tregarth; Eirlys Edwards, Bethesda; Herbert Griffiths, Tregarth; Gareth a Sara Oliver, Tregarth; Dilys A. Pritchard-Jones, Pwllheli; Doris Shaw, Bangor; Elfed Bullock, Bethesda.

Enillydd Ionawr oedd Merfyn a Laura Jones, Penisa'r Allt, Tregarth, LL57 4NB.

ebost: gwion@dioni.co.uk
tel: 01341 247 200



"CYSYLLTWCH Â NI I
HYRWYDDO EICH BWTHYN
GWYLIAU"



Sefydlwyd

1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI

2 Hen Aelwyd, Bethesda

☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.

Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.

Gadewch i ni gynnis pris rhesymol am waith diguro.

Caban Cysgu Beiciau i'w llogi



Am fwy o
wybodaeth
Cysylltwch ar
01248 605573

SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Blodau Racca

PENISARWAUN

Planhigion gardd a basgedi crog o'r
ansawdd gorau
- gan hogan o Rachub

Ffôn: 01286 870605

WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)

Dosbarthiadau
yng Nghanolfan
Gymdeithasol
Tregarth bob
nos Fercher
6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch
â'r hysbyseb hwn hefo chi

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦
Manylion gan Jake neu Elena
Fitzpatrick - 01248 602416
neu galwch heibio'r dosbarth

MODURON PANDY Cyf.

Tregarth
Gwasanaeth ♦ Atgyweirio
Canolfan 'Unipart'
M.O.T.

Ffôn: 01248 600619 (dydd)

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATÍ.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ 602112 (gyda'r nos 602767)
Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI

Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd



- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224



Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar



Swyddfeydd eraill:

Llangefni Amlwch Benllech
(01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782

Caernarfon
(01248) 673616

Pwllheli
(01758) 703000

L. Sturrs a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

Ffacs: 602571

lsturrs@googlemail.com

Meithrin Menter Gymdeithasol Leol

Am gymorth:
i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli

cysylltwch â
Mantell Gwynedd



- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warrant 3420271

Croesair Chwefror 2014

AR DRAWS

- 1 Y planhigion mwyaf (4)
- 4 O un ochr i'r llall (3)
- 6 “Segurdod yw clod y cledd,
A --- yw ei anrhydedd” (3)
- 8 Krakatoa, Etna a Feswfiws (12)
- 10 Gwasanaeth yn yr Eglwys Gatholig (6)
- 12 Un sy’n bwydo trên stêm (6)
- 13 Dywedir fod cadwyn cyn gryfed a’i
----- wannaf (5)
- 14 Troi’n feddal (4)
- 15 Dawns glasurol i chwaraewr
pêl-droed o Gymru efallai (4)
- 17 Selog a phenboeth weithiau (5)
- 19 Yr awydd a’r gallu i lenyddda, medd
rhai (2,4)
- 21 I foch ga’l trochi (6)
- 23 “Y ----- mewn hedd wrth Ei draed,
A phawb yn ddiogel dan arwydd Ei
waed” (emyn heddwch Eifion Wyn)
(12)
- 24 Ffurf lenyddol yw’r stori --- (3)
- 25 Yn ddiarhebol, mae cyw yn pigo lle
mae hon yn crafu (3)
- 26 “Gwenni --- - ffair Pwllheli” (Cân
werin) (3,1)

I LAWR

- 2 Mae rhai i Arthur, Glyndŵr a
Llywelyn ar hyd a lled y wlad (7)
- 3 0.1 (6)
- 4 Tebot Piws, - ond eu Lleucu’n
wahanol liw (4)
- 5 Pentref yng ngorllewin Môn, wedi
holli tybed? (6)
- 6 Dweud sut ma’i fod (5)
- 7 Hobïau a phleserau (10)
- 9 Rhaglen newyddion buan Radio
Cymru (4,6)
- 11 Eto ar Radio Cymru, bu Rhys Jones
yn taro hwn ar fore Sul am
flynyddoedd (5)
- 12 ----- at ei debyg. “Adar o’r un lliw
ehedant i’r un lle” (5)
- 16 Rwyd ti a’th chwaer yn blasu a
blysio’r un pethau (7)

- 17 Llysieuyn i wneud saws (6)
- 18 Gwraig y brenin Gwrtheyrn (6)
- 20 Pan awn ar berwyl yn flêr trown yn
farbaraid a gwyllt (5)
- 22 Alaw werin enwog,
‘Y ferch o’r ----’ (4)

ATEBION CROESAIR
IONAWR 2014


AR DRAWS 7 Cwellyn, 8 Aeddfed,
9 Saunders, 10 Solo, 11 Bardd Cwsg,
14 Cwys, 15 Cloch, 16 Gogoneddu,
17 Mela, 19 Credadun, 21 Cweryl,
22 Odiaeth

I LAWR 1 Bwda, 2 Y Llonyddwch,
3 Annelwig, 4 Maes, 5 Addas,
6 Rheilffyrdd 12 Arloeswr,
13 Gogleddol, 14 Cant a Mil,
18 Athro, 19 Calch, 20 Uned

Yn anffodus, ni chyrhaeddodd un
croesair ben ei daith. Cafwyd cerdyn
gan y Post Brenhinol yn hysbysu nad
oedd gwerth y stamp yn ddigonol ar yr
ymgais, a felly fe’i ataliwyd. Dau
gamgymeriad a gafwyd y tro hwn, sef
‘acre’ yn hytrach nag ‘athro’ a ‘cols’
yn lle’r ateb cywir ‘calch’.

Ar wahân i hynny roedd y canlynol
wedi anfon atebion hollol gywir :
Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch;
E.E.Roberts, Llanberis; Dilys Parry,
Heulwen Evans, Rhiwlas; Doris Shaw,
W.H.Owen, Bangor; Ann Carran, Rita
Bullock, Gaynor Elis-Williams, Bethesda;
Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Elizabeth
Buckley, Dulcie Roberts, Sara a Gareth
Oliver, Tregarth; Ellen Whitehouse,
Birmingham; Gareth William Jones, Bow
Street; Elfed Evans, Llanllechid.

Ond yr un sy’n mynd â hi y tro hwn
yw: Jean Hughes, Bryn Awel,
Talybont, Bangor, Gwynedd LL57
3UU. Llongyfarchiadau i chi.



Atebion erbyn dydd Mercher, 5 Mawrth 2014 i:
‘Croesair Chwefror’, Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD.

Enw:

Cyfeiriad:

Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd cyfarfod y Gangen yng
Nghanolfan Cefnfaes, nos Fawrth, 28 Ionawr
2014, gyda’r Cynghorydd Paul Rowlinson yn
y gadair.

Dyma rai o’r materion a drafodwyd yn ystod y
cyfarfod:

Adroddwyd fod parcio yn y Gerlan yn dal i
fod yn drafferth, ond penderfynwyd dileu rhai
llinellau melyn yn y Gwernydd, Stryd
Goronwy a Stryd y Ffynnon gan obeithio y
bydd hyn yn gwella’r sefyllfa.
Eryrod Eira: Adroddodd y Cynghorydd Ann
Williams bod y 4 lleoliad ar gyfer gosod y
biniau halen ym Maes y Garnedd , Llys
Dafydd , Swyddfa’r Post a Ffordd Stesion.
Mae hwn yn gynllun ble mae croeso i bawb
wirfoddoli!

Anfonwyd llythyr ynghylch y newidiadau
sydd i ddigwydd yn Swyddfa Bost Bethesda.
Fe fydd cownter agored yn lle’r til arferol ac fe
fydd ar agor am fwy o oriau bob dydd.
Pwysleisiwyd pwysigrwydd cael staff
Cymraeg eu hiaith y tu ôl i’r cownter yno.

Bu Alun Ffred Jones AC yn sgwrsio â phobl o
gwmpas y tai yn Rachub am ryw awr cyn
cynnal ei Gymorthfa. Cafwyd sesiwn brysyr

iawn a diolchwyd i’r aelodau a fu’n ei
gynorthwyo. Trefnir y Gymorthfa nesaf ar
ddydd Gwener, 14 Mawrth yn Neuadd Talgai,
Llandygái.

Nodwyd fod gwaith gwella gwelediad i’r A5 o
gyfeiriad y ddwy ochr wedi cychwyn ym
Mryn Bella.

Adroddodd y Cynghorydd Dafydd Owen fod
swyddog o Gyngor Gwynedd wedi bod o
gwmpas Tregarth i geisio gweld sut y gellir
gwella problem sbwriel.

Trafodwyd manylion a restrwyd yn
Ymgynghoriad Comisiwn Williams ynghylch
adrefnu’r Cynghorau Sir.

Gwnaed y trefniadau arferol ar gyfer y Bore
Coffi yng Nghaffi Coed y Brenin ar Sadwrn, 1
Mawrth. Fe fydd byrddau gwerthu a Raffl
hefyd. Pris mynediad: £1.00.

Y Cyfarfod Blyneddol ar Chwefror 25 yng
Nghaffi Coed y Brenin am 7 o’r gloch fydd ein
cyfarfod nesaf.

Y siaradwr gwadd fydd Marc Jones Wrecsam,
Ymgeisydd y Gogledd ar gyfer Etholiad
Ewrop. Bydd croeso i bawb.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Ionawr aeth nifer o
aelodau i gyfarfod Pwyllgor Gwaith
Arfon i drafod materion mewnol y Plaid
Lafur, er enghraifft trafodwyd sefyllfa
ariannol Plaid Lafur Etholaeth Arfon a
dewiswyd cynrychiolwyr i Plaid Lafur
Gwynedd.

Yna, ganol y mis, aeth rhai o’r aelodau i
gyfarfod Plaid Lafur Gogledd Cymru yn
y Rhyl, yn bennaf i drafod etholiad
Ewrop ar 22 Mai. Cafwyd cyfle i holi
Derek Vaughan ASE, Chris Ruane A.S.
ac Ann Jones A.C. am eu gwaith yn y tair
senedd.

Tua diwedd y mis cynhaliwyd y cyfarfod
misol arferol yng Nghanolfan Cefnfaes i
dderbyn adroddiadau gan gynrychiolwyr,
cynghorwyr a swyddogion. Da oedd
clywed fod etholwyr yn dal i ymateb i’r
gangen.

Cynhelir cyfarfod nesaf y gangen nos
Ffercher 26 Chwefror yng Nghanolfan
Cefnfaes am 7.30 pm.

Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt merched, dynion a phlant.

Cynghori, gosod a thorri wigiau

Rhai gwasanaethau harddwch a shafio (rasal "cut throat")

Y Douglas Arms

* Lluniaeth i Bartïon * Te Cynhebrwng *

* Gardd Gwrw * Te a Choffi *

Oriau Agor

Llun – Gwener: 6.00 – 11.00

Sadwrn: 3.30 – 12.00

Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 -11.00

01248 600219

www.douglas-arms-bethesda

Cewch groeso cynnes gan Gwyn, Christine a Geoffrey

CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550

karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwygo ar gyfer partïon o bob math - plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partïon o bob math – dathlu pen-blwydd ac achlysuron arbennig eraill.

Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

Londri Coed y Brenin

wneud eich golchi

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr

Ysglodion pren i'r ardd

Ffensio a thorri coed

Asiant system gwresogi trwy losgi coed

01248 605207

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel

1 Ffordd Garneddwen

Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707

GWASANAETH DYDD A NOS

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymwrwr Trydanol

Trydanwr cymwysedig gyda phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda

Gwynedd LL57 3ST

Ffôn: 01248 602480

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o bob math ar gael ar y safle

Prisiau rhesymol

Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS

LONDIS BETHESDA

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr

7 diwrnod yr wythnos

STEPHEN JONES

†

TREFNYDD ANGLADDAU

Hefyd ymgymryd â gwaith cerrig beddi: adnewyddu neu o'r newydd

Gweithdy Pen-y-bryn

Cefn-y-bryn, Bethesda

Ffôn: gweithdy 600455

gartref 602455

personol 07770 265976

Bangor 360001

Gwasanaeth personol ddydd a nos

JOHN ROBERTS

Paentiwr

Papurwr

Teilsiw'r

Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045	Cludiant am ddim yn lleol	Mynytho 01758 730768
Caernarfon 01286 676070	Stoc helaeth ac amrywiol	LLanrwst 01492 640794
Llangefni 01248 751677	Croeso i gyfrifon masnachol	Siop yn 01492 640794
	Staff cyfeillgar a phroffesiynol	Llanrwst
	Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y	

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni

Côr Meibion y Penrhyn

Cyfarfod Blynyddol

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y côr yn y Clwb Criced ar nos Lun, Ionawr 27 dan gadeiryddiaeth Alun Davies. Diolchodd Alun i'r holl aelodau a'r swyddogion, yr arweinydd a'r gyfeilyddes am eu gwaith caled yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Nododd rai o uchafbwyntiau'r flwyddyn gan gynnwys gwerthiant ardderchog ein CD ddiweddaraf Anthem a'r daith i lawr i Gaerdydd i gymryd rhan yn y canu cyn y gêm rygbi ryngwladol, ac i gyfrannu at raglen John Ogwen y diwrnod canlynol. Roedd y cadeirydd yn hynod o falch bod nifer sylweddol o aelodau newydd wedi ymuno â'r côr yn ystod y flwyddyn gan gynnwys 4 neu 5 o aelodau ifanc. Nododd Arwel, yr arweinydd, bod côr prysur yn gôr hapus a bod Côr y Penrhyn bellach yn un o'r corau prysuraf yng Nghymru, a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at arwain y côr am flwyddyn arall gyffrous. Mae rhai datblygiadau posibl a eill ddwyn enw'r côr i sylw'r byd. Gwylwch y gofod hwn!

Helpu elusennau

Mae'n bleser gan y côr gyhoeddi ein bod wedi llwyddo i gyfrannu at ddau achos da lleol sef Cronfa Elinor Jones ac achos Siôn Roberts yn dilyn y canu carolau y tu allan i Tesco, Bangor cyn y Nadolig. Mae'r ddau achos da wedi elwa o dros £200 yr un.

Rhaglen Lawn

Dyma restr o ymrwymiadau'r côr o hyn i ganol mis Mai.

30 Ionawr – Canolfan Wyliau Henllys, Biwmares

20 Chwefror – Canolfan Wyliau Henllys, Biwmares

1 Mawrth – Seremoni Ailagor Pringles, Llanfair PG

5 Ebrill – Canolfan Wyliau Henllys, Biwmares

26 Ebrill – Cyngerdd gyda'r Dalesmen yn Eglwys Gadeiriol Derby

15 Mai - Y cyntaf o gyfres yr haf o gyngherddau yn Eglwys St. Ioan, Llandudno.

Fel y gwelir, mae misoedd llwm y gaeaf a'r gwanwyn yn cynhyrchu un cyngerdd y mis ar gyfartaledd ac mae'n sicr y bydd gwahoddiadau eraill yn dod i gynnal cyngherddau ac i wasanaethu mewn priodasau ac ati.

Cymeriadau'r Côr



Y mis hwn rydyn ni'n cychwyn cyfres newydd o bortreadau neu broffiliau o aelodau'r côr gan ddechrau gydag un o'r aelodau hynaf a'r hwyaf ei aelodaeth, sef Tom Morgan, ein llywydd. Mae Tom yn un o'r rhai mwyaf poblogaidd a ffyddlon yn y côr, a bu'n aelod o'r adran fariton am flynyddoedd cyn symud yn gymharol ddiweddar i ganu gyda'r ail fas.

Mae'n meddu ar lais grymus a soniarus a bu'n unawdydd yn y côr am flynyddoedd.

Beth ydy dy enw llawn? – Thomas Hywel Morgan.

Un o lle wyt ti'n wreiddiol? – Cwmystwyth, ger Aberystwyth

Ers faint wyt ti'n aelod o'r Côr?

Chwe deg pedair o flynyddoedd (ymuno â'r côr yn 1950)

Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?

'Benedictus' gan Robat Arwyn

Pwy ydy dy hoff ganwr / gantores? – Rhys Meirion

Beth ydy dy farn di am ganu pop Cymraeg neu Saesneg?

Cael pleser yn gwrando ar ambell i gân pop.

Oes gen ti atgof difyr am ryw ymweliad efo'r Côr?

Cael canu efo'r côr yn y Festival Hall yn Llundain.

Pa ddiddordebau eraill sy gen ti tu allan i'r Côr?

Cymdeithasu, mwynhau yr wyrion a'r wyresau, a garddio.

Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y Côr yn ei wneud?

Mwy o benwythnosau lle gall y gwagedd ymuno ar ymweliad neu daith gyda'r côr.

Y Boncathod yn Brysur

Mae'r grŵp canu gwerin o'r Dyffryn, y Boncathod, wedi bod yn brysur yn ystod y misoedd diwethaf.



Ddechrau Medi cawsant wahoddiad i ddiddanu Merched y Wawr yn Llanfairpwll a Phorthaethwy, a chael croeso mawr yn y ddau le. Perfformio wedyn yng ngwesty'r Douglas, Bethesda yn lansiad nofel Annes Glynn, Canu yn y Co'. Gan fod Annes yn gyn-aelod o'r Boncathod, a'r nofel yn sôn am griw o ffrindiau o Fethesda oedd yn canu mewn parti gwerin, mi allwch fentro bod y genod yn awyddus iawn i ddarllen y nofel!

Fis Hydref, Caffi Fitzpatrick's oedd y lle i'w gweld ar bnawn Sul braf Gŵyl Afon Ogwen. Mi gafwyd cyngerdd anffurfiol yn yr awyr agored yng nghefn y caffi gyda'r Boncathod, y grŵp gwerin Triawd a'r bardd a'r datgeinydd Rhys Trimble.

Cafodd un o'r criw, Gaynor Ellis-Williams, gyfle i sôn am y grŵp ar Slot y Corau ar raglen radio Iola Wyn un wythnos. Wrth i'r nosweithiau ymestyn, rhoddodd y genod y caneuon gwerin o'r neilltu a throi at ganu carolau. Mi gawsan nhw'r fraint o ganu yn seremoni goleuo coeden Nadolig Nant Peris ac ym Marchnad Ogwen ola'r flwyddyn yng Nghlwb Rygbi Bethesda, lle buon nhw'n codi pres tuag at ddau achos da. Diolch i gyfraniadau gan bobl Nant Peris a Dyffryn Ogwen, mi lwyddon nhw i godi £100 tuag at yr Ambiwylans Awyr a £25 tuag at apêl y Philipinau mudiad y Groes Goch.

Cyn y Nadolig, daeth dau wahoddiad arall i ganu yn Sir Fôn, y naill yn siop Awen Menai ar noson o siopa hwyr a'r llall ar noswyl Nadolig, ym mhlygain Capel Rhos y Gad, Llanfairpwll lle'r oedd llu o bartïon yn canu carolau plygain yng ngolau kannwyll.

Erbyn hyn mae'r carolau wedi cael eu cadw am flwyddyn arall, a'r Boncathod wedi ailafael yn y caneuon gwerin digyfeiliant. Maen nhw'n cynnal dwy noson i ddathlu Gŵyl Ddewi, un yng Nghlwb Golff Llanfairfechan ar Fawrth 1af a'r llall rai dyddiau'n ddiweddarach yng nghwmni aelodau Capel Moreia, Llangefni.

Mae'r Boncathod bob amser yn falch o'r cyfle i ganu yn y Dyffryn, felly os ydych chi'n chwilio am rywrai i gynnal noson, cofiwch amdanyn nhw! Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Gaynor ar 01248 602481 neu anfonwch e-bost: boncathod@hotmail.com.

Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen



Cafwyd noson ddiddorol dros ben yng nghyfarfod mis Ionawr o'r Gymdeithas pan gafwyd detholiad allan o ddyddiaduron William Bulkely o'r Brynddu, Ynys Môn, rhwng 1690 a 1751. Roedd y cyflwyno gan Wyn Bowen Harris, gyda chymorth Gwen Ellis, dau o'n hactorion mwyaf adnabyddus, yn wych ac yn dod â'r cyfnod yn fyw i'r gynulleidfa.

O'r Cyngor

Cyngor Cymuned Pentir

Yn eu cyfarfod ar Ionawr 9fed daeth plismones gymunedol Penrhosgarnedd a'r PCSO i siarad gyda'r Cyngor. Nodwyd mai'r prif bryder oedd diffyg presenoldeb plismon ar y strydoedd, yn enwedig gyda'r nosau, a'r ffaith fod pobl o tu allan i'r ardal yn parcio eu ceir drwy'r dydd ar strydoedd Penrhosgarnedd. Cynigiwyd cerdded o gwmpas yr ardal gyda rhai o'r cynghorwyr i'r Heddlu gyflwyno eu hunain i'r bobl. Cytunwyd i wneud hyn.

Nodwyd fod gwaith wedi ei wneud ar Gae Chwarae Caerhun bellach ond nad oedd o safon dderbyniol, a chytunwyd i ail-gysylltu gyda'r cwmni a wnaeth y gwaith i ofyn iddynt ei orffen i safon gwell. Trafodwyd hefyd y syniad o harddu'r gwahanol ardaloedd o fewn y gymuned a phlannu blodau/planhigion ac ati. Penderfynwyd holi'r Cyngor Sir os byddai eu gweithwyr hwy yn fodlon gwneud hyn pe byddai'r Cyngor Cymuned yn talu.

Cyngor Cymuned Bethesda

Eryrod Eira - Cadarnhawyd bod hyfforddiant wedi ei dderbyn a bod angen gwirfoddolwyr. Bydd y cynllun yn cynnwys edrych ar ôl aelodau bregus o'r gymuned. Bydd angen storio offer yn stordy Llys Dafydd. Swyddfa Bost Bethesda - Newidiadau i swyddogaeth a gwasanaethau Swyddfa Bost Bethesda. Manylion pellach yn postofficeviews.co.uk; cangen 21960499

Cyngor Gwynedd - Annog ailgylchu a chompostio. Mae'r targed ar gyfer ailgylchu yn cael ei godi o 52% i 58% ar gyfer Gwynedd. Gellir llenwi holiadur adborth i'w helpu ar sut i gyrraedd y targed yn www.gwynedd.gov.uk/ymgynhori
Alun Ffred Jones AC - Rhannu gwybodaeth am Gronfa Treftadaeth y Loteri ar gyfer grantiau Cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf - mae'n cynnwys grantiau ar gyfer gwella cofebion.

Cyngor Cymuned Llandygái

Cynhaliwyd cyfarfod mis Ionawr yng Nghanolfan Tregarth gyda'r Cynghorydd Dafydd Owen yn y gadair.

Penderfynwyd cysylltu eto gyda'r cyngor sir ynglŷn â'r problemau gorlif dŵr ym Mynydd Llandygái ac i holi pa welliannau y bwriedir eu gwneud ar dir y cyngor ac ar dir preifat i sicrhau na fydd dŵr yn llifo drwy anheddau'r ardal.

Nid yw'r Cyngor Cymuned yn gallu cytuno gyda pholisi'r cyngor sir o atal cludiant plant i'r ysgol o gyfeiriad Talybont. Dylai diogelwch y plant fod yn ystyriaeth holl-bwysig.

Cysylltwyd â'r cyngor sir oherwydd problemau ar rai o lwybrau cyhoeddus yr ardal a chafwyd ymateb buan ac effeithiol i sicrhau diogelwch y cerddwyr.

Penderfynwyd fod treth y cyngor cymuned i fod yr un fath eto eleni ond gresyn fod cyfraniad y cyngor sir wedi dod i ben.

Arddangosfa “Ymylon y Llechen” Oriol Ynys Môn, Llangefni 8 Mawrth – 27 Ebrill

Mae Gŵyl Afon Ogwen wedi llwyddo i ddod â llawer o arlunwyr lleol at ei gilydd i gyflwyno 4 arddangosfa flynyddol ym Methesda ers 2010. Cododd “Ymylon y Llechen” yn Oriol Ynys Môn o'r cydweithio hwnnw, ac mae'n argoeli i fod yn arddangosfa amrywiol a heriol o waith lleol mewn oriel o bwys : mae'n uno nifer o arlunwyr Dyffryn Ogwen mewn arddangosfa unigryw sydd yn cynnwys amrywiaeth cyffrous o wahanol weithiau artistig.



Capel Carneddi (Martin Morley)

Mae'r criw yn cydnabod gwaddol arlunwyr lleol diweddar megis Brenda Chamberlain a John Petts, John T. Parry (Ap Idwal), Roy Ostle, Don McIntyre a Peter Prendergast.

Bydd ystod eang o weithiau yn cael eu dangos, o baentiadau gan David Woodford RCA, Darren Hughes RCA, Iwan Gwyn Parry RCA, arlunwyr ag enw da yn genedlaethol yn gweithio yn y traddodiad tirluniau, i waith yr artist awdio David Hopewell, strwythurau gwydr a llechen Christine Roberts, cerfiadau llechen Ivor Richards, fideo a cherddoriaeth gan ben Stammers a Hywel Edwards, printiadau gan Ann Lewis RCA a gosodiadau gan Lisa Hudson a Gilly Thomas RCA. Hefyd, fe ddangosir gweithiau gan grwpiau lleol ynghyd â detholiad o ffotograffau gan y Clwb Camera.

Mae'r casgliad cyffrous yma yn cynnig rhywbeth at ddant pawb yn Nyffryn Ogwen. Felly ewch yn llw i Oriol Ynys Môn. Oriau agor 10 yb - 5 yh. Mynediad am ddim.

Cystadleuaeth Barddoniaeth Masnach Deg Divine/Cymorth Cristnogol 7-11 & 11-16 oed

Mae Cystadleuaeth Barddoniaeth Divine a Cymorth Cristnogol yn ôl ac mae'r gystadleuaeth cyfrwng Cymraeg bellach yn ei thrydedd flwyddyn. Y beirniad eleni yw Aneirin Karadog, sef Bardd Plant Cymru ac mae llw o wobrau i'w hennill.

Mae'r thema eleni ‘Pe byddwn i’n cwrdd â ffermwr coco...’ yn gwahodd disgyblion cynradd ac uwchradd i ystyried sut fyddai i gwrdd â rhywun sy’n gyfrifol am un o'i hoff fwydydd - siocled. Dyma eu cyfle i fod yn greadigol ac i ddefnyddio'u sgiliau llythrennedd i ymateb a rhoi llais i'w syniadau ar Fasnach Deg, trwy gyfrwng cerdd.

Anogir y cystadleuwyr i feddwl yn ddyfnach am siocled a masnach deg. Mae'r ffermwyr sy'n tyfu'r coco ar gyfer ein siocled yn gweithio'n hynod o galed, o dan amgylchiadau anodd, ac yn aml iawn ond yn derbyn ychydig iawn o arian am eu cynnyrch.

Mae Siocled Divine yn gwmni sy'n 100 y cant masnach deg gyda'r ffermwyr yn Ghana sy'n tyfu'r coco yn berchen hanner y cwmni - mae hynny'n golygu eu bod yn cael pris teg am eu ffa a hefyd cyfran deg o'r elw a ddaw o werthu'r siocled. Maent wir yn un o'r arloeswyr ym maes Masnach Deg.

Mae dau gategori oedran yn y gystadleuaeth: 7-11 oed (cynradd) a 11-16 oed (uwchradd). Cofiwch ddanfoni y ceisiadau at mdefis@cymorth-cristnogol.org neu drwy'r post i Cymorth Cristnogol, 5 Heol yr Orsaf, Radur, Caerdydd CF15 8AA.

Ceir manylion llawn am y gystadleuaeth a'r gwobrau yn www.cymorthcristnogol.org neu www.divinechocolate.com/uk/poetry ac am gopi o boster y gystadleuaeth cysylltwch â'r cyfeiriad e-bost uchod. Mae gwefan Learn Cymorth Cristnogol yn llawn adnoddau addysgu i'ch helpu.

Dyma air gan y beirniad, Aneirin Karadog ‘Mae'n ffrainc cael beirniadu cystadleuaeth sydd mor bwysig ei neges sydd hefyd yn gyfle i ganfod beirdd mawr y dyfodol. Ac wrth gwrs, drwy gefnogaeth Divine a Masnach Deg mae'r cyfuniad o siocled a barddoniaeth yn sicr o ysbrydoli.’

Y dyddiad olaf i dderbyn cerddi fydd 30 Ebrill 2014, felly ewch ati i annog disgyblion i ddefnyddio'u dychymyg!

GAIR O'R DOSBARTH

Ysgol Dyffryn Ogwen

Yr Adran Gymraeg

Ar y we!

Beth am fynd i edrych ar sianel youtube yr ysgol ar www.youtube.com/ysgoldyffrynogwen. Ar ein sianel cewch flas ar ein hamrywiol weithgareddau yn yr ysgol. Mwynhewch! Ddechrau'r mis cychwynnodd disgyblion yr Adran Gymraeg eu blog ar y we! Er mwyn darllen am brofiadau'r disgyblion yn ogystal â chael y newyddion diweddaraf am adran y Gymraeg, ewch i'r wefan www.cymraegydyffrynogwen.wordpress.com

Edrych ymlaen

Bydd hi'n gyfnod prysur yn yr adran yn ystod yr wythnosau nesaf. Ar hyn o bryd mae criw o Flwyddyn 8 a 9 yn paratoi'n ddiwyd at Fwletin Newyddion Ysgolion y BBC, 2014. Eleni, rydym yn lwcus iawn o gael cydweithio gyda Nia Thomas, llais cyfarwydd y Post Prynhawn ar Radio Cymru. Bydd hi'n cynnig arweiniad profiadol wrth i'r disgyblion fynd ati i baratoi eu heitemau newyddion ar gyfer y bwletin. Gobeithio bydd cyfle i glywed eitemau'r disgyblion ar raglen y Post Prynhawn! Y 27ain o Fawrth yw dyddiad Bwletin Newyddion Ysgolion 2014.

Martha o flwyddyn 9 sy'n sôn am ei diwrnod hi ac Elliott yng ngweithdy 'Cymerwch Ran', S4C

Ddydd Sadwrn, y 10fed o Ionawr, yn Venue Cymru yn Llandudno cafwyd penwythnos lle roedd pobl o bob oed yn gallu cael blas ar weithgareddau celfyddydol difyr am ddim. Enw'r diwrnod oedd "Cymerwch Ran".

I blant iau, roedd rhaglenni S4C fel Stwnsh a Cyw yn perfformio trwy'r dydd, lle roedd cyfleoedd i blant ennill gwobrau a chael eu stwnsho! Roedd y plant wrth eu bodd yn cael y cyfle i gyfarfod eu hoff gantorion a chyflwynwyr.

Un o'm hoff weithgareddau yn y Venue oedd cael y cyfle i ddysgu sut i actio yng ngweithdy Rownd a Rownd, sef rhaglen opera sebon i bobl ifanc ar S4C. Cynhaliwyd y gweithdy yn y bore ac yn y prynhawn, roedd y rhan fwyaf o bobl oedd yn cymryd rhan yn 5-14 mlwydd oed. Roedd cyfle i weithio'r camera a gweithio'r sain am y sesiwn, yn ogystal â dehongli sgript gyda rhai o actorion y gyfres a chael gweithio gyda chyfarwyddwr proffesiynol.

Wrth gerdded i mewn i'r Venue, roedd grŵp drymio proffesiynol yn diddanu'r dorf, sioe bypedau i'r plant lleiaf a bwrllwm o weithgareddau lliwgar ar y stondin 'Lego'.

Yn y neuadd fawr, roedd modd dysgu sut i hedfan ar drapîs, perffeithio eich sgiliau syrcas a chyfle i roi tro ar sgilefrolio, i gyd wedi eu trefnu gan gwmnïau lleol. Ar ddiwedd y prynhawn, cafodd y plant a fu'n rhan o'r gweithdy drymio gyfle i berfformio darn swnllyd gyda chwmni Sbarc o flaen cynulleidfao gant a mwyl!

Roedd "Cymerwch Ran" yn ddiwrnod gwych a byddwn yn eich argymhell i fynd yno flwyddyn nesaf!

Yr Adran Addysg Gorfforol

Llwyddodd chwe disgybl i ennill lle yn nhîm traws gwlad Arfon yn dilyn pencampwriaethau Arfon ganol Ionawr. Ym mhencampwriaeth Eryri enillodd Sion Bullock a Beca Nia le yn nhîm Eryri ar gyfer pencampwriaeth traws gwlad Cymru yn Aberhonddu ble daeth Sion yn safle 25 a Beca yn safle 59 drwy Gymru gyfan.



Iago Davies, Will Parry, Elin Owen, Thalia Lichtenstein, Beca Nia a Sion Bullock

"Stori Josh" – Helpu Atal Creu 2013

Gwnaethom y fideo yma i helpu atal bwlio ar gyfer cystadleuaeth "Helpu Atal Creu" Llywodraeth Cymru adeg Wythnos Gwrth-fwlio fis Tachwedd 2013. Yn fy ngrŵp i roedd Dylan, Josh a Morgan. Casglon ni lawer o syniadau at ei gilydd i greu'r ffilm ac yna dewis y syniad gorau. Dyna sut y dechreuodd "Stori Josh". Defnyddiais i feddalwedd iMovie i greu'r ffilm. Doedd y ffilm ddim yn cael bod yn fwy na dau funud o hyd ac roedd hynny'n anodd i ni, oherwydd roedd gennym ni lawer o syniadau! Cymerodd hi dri diwrnod i wneud y ffilm gan gynnwys y gwaith golygu. Anfonon ni y ffilm i'r gystadleuaeth drwy ei gosod ar sianel YouTube yr ysgol ac yna daeth y canlyniad . . . roedden ni wedi dod yn AIL trwy Gymru i gyd yn yr Adran Uwchradd! Canlyniad gwych ac rydyn ni'n falch iawn o'r ffilm – ewch i'w gweld ar <http://www.youtube.com/watch?v=IG2ZRPWvpkc>

Ioan Griffiths (Blwyddyn 8)

Codi Arian - Dosbarth 10 Idwal

Fel rhan o'n gwaith Bagloriaeth Cymru fe wnaethom godi arian drwy werthu siocled masnach deg, cynnal raffl a threfnu noson goffi yng Nghapel Carmel, Rachub. Y cyfanswm a gasglwyd oedd £540. Aeth £100 tuag at 'Action Aid' sef elusen y mae'r capel yn ei gefnogi, £220 i Ymchwil Canser, a £220 i 'Great Ormond Street Hospital'. Diolch i bawb a fu'n gymorth.

Rhiannon, Manon, Ben a Luke



Rhiannon Llwyd, Manon Hughes, Ben Jones a Luke Crowe gyda chynrychiolwyr o Ymchwil Canser

Penodi Rheolwr i Neuadd Ogwen

Bu Manon Hughes a Math Owen yn rhan o'r broses o benodi rheolwr i Neuadd Ogwen yn ddiweddar. Yn ôl Cadeirydd Cwmni Tabernacl, Mr Owain Arwel Davies, yr oedd cyfraniad y ddau i'r broses o benodi wedi bod yn un aeddf a gwerthfawr iawn. Penodwyd Mr Dilwyn Llwyd a Mr Rhys Davies i rannu'r swydd.

Gwasanaeth i gofio'r Holocaust

Bu pedair merch o Flwyddyn 10 mewn gwasanaeth arbennig ym Mangor i gofio'r Holocaust. Mae hwn yn wasanaeth blynyddol sydd yn cael ei gynnal gan Gyngor Gwynedd ac mae'r ysgolion uwchradd lleol ynghyd â Chyngor Dinas Bangor a'r Brifysgol yn cymryd rhan. Rhiannon Llwyd oedd yn cymryd rhan eleni ar ran Ysgol Dyffryn Ogwen ac yn darllen cerdd gan y bardd Iddewig, David Vogel.

Ysgol Bodfeurig

Ymweliad Ben o'r Ymddiriedolaeth Natur Cymru.

Yn ddiweddar, fe fu ymwelydd i'r ysgol i drafod gyda Blwyddyn 2 a 3 am adar a chynefinoedd. Roedd y plant wrth eu boddau yn cael dysgu llawer am adar megis eu henwau, eu hanghenion ac ati. Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr i Ben am ddod i Bodfeurig a rydym yn edrych ymlaen i'w weld yn fuan!

Donna Direidi

Bu'r plant yn brysur yn canu a dawnsio gyda Dona Direidi yn ddiweddar. Roedd y plant wedi mwynhau cael y profiad o gyfarfod y cymeriad Dona Direidi. Roedd y bore yn llawn hwyl a sbri!

Gwyllo Adar yn yr Ysgol.

Mae Blwyddyn 2 a 3 eleni yn cymryd rhan yr ymgyrch 'Gwyllo Adar yn yr Ysgol' gan yr RSPB. Maent wedi bod yn mynd allan o amgylch tir yr ysgol yn casglu data dyddiol am yr adar sy'n ymweld â'r ysgol.

Hefyd mae plant y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn brysur iawn yn creu bwyd adar ar gyfer eu denu i'n hysgol yn ystod yr hanner tymor yma.

Mae’r dosbarthiadau wrth eu boddau yn cael ymchwilio i weld os oes adar wedi bod yn bwyta yn ein hysgol ni!

Y Tad John

Yn ddiweddar bu’r Tad John yn cynnal gwasanaeth yn ein hysgol. Fe fu’n sôn am roddion y tri gŵr doeth i’r Iesu. Bu’n trafod pwysigrwydd ein rhoddion ni i gyd-ddyn. Roedd yn braf croesawu’r Tad John i’r ysgol ac rydym yn edrych ymlaen i’w weld eto yn fuan.



Dyma Ben yn cynnal sgwrs gyda’r disgyblion am adar.



Dyma Donna Direidi yn cael hwyl a sbri gyda’r disgyblion iau.

Ysgol Tregarth

Croeso

Croeso cynnes i ddau ddisgybl newydd i Ysgol Tregarth. Mae Keira a Jacob wedi ymuno a ni yn dosbarth Idwal a Tryfan. Mae’r ddau wedi setlo i mewn yn wych ac wedi gwneud llwyth o ffrindiau newydd. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yma.

Ymwelwyr

Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen wedi cael sawl ymwelwr dros yr wythnosau diwethaf. Fe ddaeth PC Dewi Thomas draw atom er mwyn ein hatgoffa o bobl sy’n ein helpu. Cawsom ddysgu am arwyr y gymuned rydym yn ymwybodol ohonynt gan gynnwys rhai newydd. Hwyl oedd cael gwisgo hetiau’r heddlu, cymeriadau doniol iawn. Roeddem yn lwcus iawn cael Dona Direidi yn yr ysgol yn canu a rapio gyda’r plant. Roedd cyfleoedd i’r plant ofyn nifer o gwestiynau amrywiol i Dona. Sôn am hwyl a sbri cawsom y bore hwnnw, mae pawb wedi cael eu hysbrydoli i rapio ac odli ym mlwyddyn 1, gwych!

Mewn Cymeriad

Cafodd disgyblion dosbarthiadau Ffrydlas ac Ogwen fore cynhyrfus iawn pan ddaeth cwmni ‘Mewn Cymeriad’ a’u cyflwyniad dramatig am Harri Tudur i ymweld a’r ysgol. Drwy gymeryd rhan weithredol yn y cyflwyniad fe ddysgodd pawb am fywyd y brenin o dras Cymreig. Cafwyd gwisgo fyny, chwarae rol ,ac yn binacl i’r cyfan cafwyd priodas rhwng a brenin ei hun ac un o’r athrawon! Bore bendigedig, ac rydym yn edrych ymlaen yn barod i’w croesawu’n ol unwaith yn rhagor cyn bo hir.

Ysgol Abercaseg

Ymweliad Dona Direidi



Fel rhan o ymgyrch ‘Dreigiau Caseg’, sef plant Blwyddyn 2, i hyrwyddo siarad Cymraeg yn yr ysgol, gwahoddwyd seren y sgrin, Dona Direidi, i’r ysgol yn ddiweddar. Mwynhaodd y plant fore difyr iawn yn ei chwmni yn canu, dawnsio, chwarae gemau ac wrth gwrs yn rapio! Un o uchafbwyntiau’r bore oedd cael sgwrs a thynnu llun gyda Dona, a mawr yw ein diolch iddi am alw draw ac ysbrydoli’r plant i gael hwyl wrth siarad Cymraeg.

Sioe Techniquet

Mewn dilyniant i’r profiadau gwych a gafodd y plant wrth ymweld â Techniquet, Wrecsam y tymor diwethaf, daeth eu cynrychiolwyr i’r ysgol i gyflwyno gweithdai ar Sain i ddisgyblion Derbyn, Bl.1 a Bl. 2. Cafodd y plant gyfle gwych i arbrofi ac ymchwilio i wahanol synau, a heb amheuaeth y siawns i gael creu amrywiaeth o synau uchel (iawn!) oedd y gorau ganddynt!

Cwmni’r Frân Wen

Bu i blant Bl. 2 yr ysgol fod yn ffodus iawn eto’n ddiweddar i gael gwario sesiwn difyr arall yng nghwmni actorion Cwmni’r Frân Wen mewn dilyniant i brosiect â gychwynnwyd cyn y Nadolig. Cafodd pawb amser gwerth chweil yn gwisgo i fyny a chwarae rôl gan ymgolli’n llwyr yn y gweithgareddau ysgogol. Mae’r cyffro yn raddol gynyddu drwy’r ysgol wrth i bawb edrych ymlaen at weld y cynhyrchiad gorffenedig o’r ‘Cwpwrdd Dillad’ gan y Cwmni cyn bo hir.

Ennill cystadleuaeth



Llongyfarchiadau i Jac Sullivan Griffiths, Bl.1, am ddod i’r brig yng nghystadleuaeth lliwio Heddlu Gogledd Cymru. Bu Jac yn ffodus iawn i ennill gwobr o £30.00 a roedd wrth ei fodd yn cael prynu Lego newydd gyda’r arian. Da iawn ti, Jac.

Llongyfarchiadau

Hoffem fel ysgol gyfan anfon ein llongyfarchiadau calonnog i Miss Sian a’i phartner Steffan ar enedigaeth eu mab bach, Jac. Mae pawb yn edrych ymlaen yn eiddgar at gyfarfod Jac cyn bo hir, ac wrth gwrs am gael gweld Miss Sian unwaith eto hefyd.

Pen-y-bryn

Amgueddfa Lechi, Llanberis

Ar Ionawr 13eg, bu plant Glyder ac Elidir yn Amgueddfa Lechi, Llanberis. Cawsom ddiwrnod difyr dros ben yng nghwmni Elen, y swyddog addysg, a Peredur wrth i ni ddysgu am hanes y diwydiant llechi. Roedd y plant wedi gwirioni gweld Ifan yn hollti a naddu'r llechi, a phrofodd Ela Oliver a Sean Buchanan yn dalentog iawn wrth iddyn nhw gael cyfle i wneud! Mwynhaodd y plant weld tai Fron Haul a'u cymharu â thai heddiw. Roedd yr ymweliad yn baratoad gwych ar gyfer ysgrifennu ymson Guto o'r llyfr Bwli a Bradwr.

Oriel Môn


Yn ddiweddar aeth dosbarth Carnedd ar ymweliad i Oriel Môn i weld arddangosfa Syr Kyffin Williams. Buom yn clywed ei hanes ar ei ymweliad â Fenis. Cafodd y plant amser yn ystod yr ymweliad i greu eu lluniau eu hunain drwy ddefnyddio golosg. (Gobeithio bod Mr a Mrs Now Jones wedi cyrraedd adref yn ddiogel wedi iddynt fentro dros y bont ac wedi mwynhau'r arddangosfa!).

Apêl Eleanor



Yn dilyn ein cyngerdd Nadolig hynod lwyddiannus, penderfynodd y plant eu bod eisiau rhoi rhan o'r elw i Apêl Eleanor. Cyflwynodd y Grŵp Effeithiolrwydd a'r Grŵp Gwyrdd sic o £100 i Dafydd ac Ann Williams, sef trysoryddion yr apêl.

Plant Pesda



Yn ystod mis Ionawr bu'r Grŵp Effeithiolrwydd, Plant Pesda, yn brysur yn addysgu Glyder, Elidir a Tryfan. Nod eu gwersi oedd datblygu sgiliau rhifedd drwy ddaearyddiaeth, addysg grefyddol a hanes. Roedd y gwersi yn llwyddiant gyda phawb wedi elwa o'r profiad. Ym mis Chwefror byddant yn addysgu Carnedd ac yn parhau gyda chreu adnoddau rhifedd trawsgwriclaidd. Daliwch ati gyda'r gwaith caled!

Dreigiau Doeth

Mae Dreigiau Doeth Pen-y-bryn wedi bod wrthi'n brysur dros yr wythnosau diwethaf yn cynllunio a chwarae gemau ar gyfer yr iard. Fel rhan o gynllun Siarter Iaith yr ysgol, swyddogaeth y Dreigiau Doeth yw hybu ac annog defnydd o'r Gymraeg ar yr iard. Bu'r Dreigiau wrthi fel lladd nadroedd yn hyfforddi holl blant a staff yr ysgol sut mae chwarae'r holl gemau. Yn sicr, mae hyn wedi profi'n llwyddiant, a phawb i weld yn mwynhau chwarae'r gemau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhiwlas

Blwyddyn Newydd Dda i bawb gan Ysgol Rhiwlas gan mai hwn yw adroddiad cynta'r flwyddyn.

Croeso

Hoffem estyn croeso i Cerin Williams sydd gyda ni am ddau ddiwrnod o'r wythnos ar brofiad o'r coleg – dwi'n gobeithio y byddi di'n hapus gyda ni!

Llwyddiant i'r Tîm Gymnasteg



Llongyfarchiadau mawr i dîm gymnasteg yr ysgol fu'n cystadlu yn ddiweddar ym mhencampwriaethau yr Urdd, Sir Eryri yng Nghaernarfon. Perfformiodd y chwech yn arbennig a chawsom ganlyniadau bendigedig. Yn y genethod 5 a 6 unigol cafodd Erin y wobr gyntaf a Gwen drydydd tra yng nghystadleuaeth y bechgyn cafodd Cai drydydd. – da iawn chi blant! Bydd Erin nawr yn mynd ymlaen i gynrychioli Eryri ym Mhencampwriaethau Cymru yn Aberystwyth ar y 19eg o Chwefror.

Cyswllt Siapan

Derbynion ni becyn o waith gan ein hysgol gysylltiol yn Siapan, ac rydym ninnau yn y broses o greu pecyn sydd yn datlu ein traddodiadau ninnau fel Cymry. Mae'r plant yn dysgu llawer trwy'r cyswllt hwn am ffordd o fyw y plant yn Watauchi Elementary School yn Tokai City, Siapan.

Disgo

Bu'r plant yn symud a dawnsio i rythmau modern y disgo nos Fercher yn Nawns Santes Dwynwen. Llauer iawn o ddawnsio, llond trol o hwy! a llond bol o fwyd – beth ydych eisiau'n well !

Co-op ffrwythau a llysiau

Cofiwch ein bod yn dal i weithredu y co-op ffrwythau a llysiau – dewch â'ch archeb i'r ysgol gyda £3 erbyn y dydd Mercher a bydd eich bag o ffrwythau neu llysiau yn yr ysgol yn barod i chwi ddod i'w nôl brynhawn dydd Gwener.

Ysgol Llandygái

Côr yr Ysgol

Mae côr yr ysgol bellach wedi ail-gychwyn ymarfer ac rydym ar hyn o bryd yn gweithio yn galed i ddysgu darnau at Eisteddfod Cylch yr Urdd.

Croeso

Croeso i Miss Rhiannon O'Mara atom – mae hi yn fyfyrwraig ym Mhrifysgol Bangor a bydd yn treulio amser yn Nosbarth Hedd yn arsylwi ac addysgu. Pob dymuniad da iddi.

Gemau Buarth ar Waith

Bu disgyblion Dosbarth Enfys a phlantos y Cylch Meithrin yn cyd-chwarae a chanu yn ddiweddar. Rydym yn annog cyswllt rhwng y Mudiad a'r ysgol ac ar yr un pryd yn dysgu gemau fydd yn cael eu chwarae drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

Mae disgyblion yr ysgol ac aelodau staff yn hen gyfarwydd â chasgliad o gemau buarth amrywiol erbyn hyn. Rydym yn mwynhau amseroedd chwarae hapus a phrysur.

Cyngerdd Gŵyl Ddewi

Eleni eto bydd disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwahodd aelodau'r gymdeithas a disgyblion y Cylch Meithrin i fwynhau prynhawn o ganu a dathlu. Bydd paned a chacen gri yn eich aros, a chroeso cynnes. Dewch yn llu brynhawn Mercher, Mawrth 5ed i neuadd yr ysgol am 1.30. Bydd y cyngerdd yma yn rhan o ddathliadau 'Yr Wythnos Gymraeg' drwy'r ysgol gyfan. Cewch hanes yr wythnos gyffrous hon yn y rhifyn nesaf.

Wel am swel !

Cawsom ddiwrnod ffasiynol iawn yn ddiweddar pan ddaeth disgyblion y Cyfnod Sylfaen i'r ysgol yn gwisgo hetiau o bob math. Bwriad y diwrnod oedd codi arian i brynu offer amser chwarae newydd. Roedd pob plentyn yn talu dirwy o £1 am wisgo eu het i'r ysgol. Codwyd swm taclus iawn ac mae'r offer wedi cyrraedd drwy'r post!

Ymweliad PC Dewi Tomos

Diolch unwaith eto i Mr Tomos am ddod i'r ysgol i siarad am beryglon y We a sut i weithio'n ddiogel ar y cyfrifiadur, ac am drafod pobl sy'n ein helpu gyda'r disgyblion iau.

Clwb Pêl-Droed

Bydd genethod hŷn yr ysgol yn elwa o arbenigedd Ethan o Glwb Pêl-droed Bangor gan y bydd yn cynnal gweithgaredd wythnosol y tymor yma er mwyn hybu sgiliau a diddordeb genethod mewn pêl-droed.

Ysgol Llanllechid

Llongyfarchiadau i Mrs MacDonald ar ddod yn nain unwaith yn rhagor! Edrychwn ymlaen at gael gweld Alffi bach yn fuan.

Y Royal Oak

Llawer o ddiolch i bawb yn Y Royal Oak am y rhodd i Ysgol Llanllechid. Fe'i gwerthfawrogir yn fawr.

Brysiwch Wella!

Dymuniadau gorau i Mrs Margaret Jones a gobeithio bod ei llaw yn gwella. Hefyd, dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Ann Parry, nain Ms Leanne.

Dringo a Defaid

Braint oedd gweld dau o'n cyn-ddisgyblion ar S4C yn ddiweddar ar y rhaglen Dringo a Defaid. Llongyfarchiadau gwresog i Ioan Doyle a David Emlyn Williams. Rydym yn edrych ymlaen at groesawu Ioan Doyle yn ôl i'w hen ysgol, pan fydd wedi dod yn ôl o'r Ariannin! Mae'r ddau ohonoch yn ysbrydoliaeth i'n disgyblion ni heddiw!

Santes Dwynwen a'r Clwb Menter

Daeth pawb i'r ysgol ar y dydd Gwener cyn Dydd Santes Dwynwen wedi eu gwisgo mewn dillad coch neu binc, er mwyn cofio am y Santes hynod hon. Bu'r holl ddosbarthiadau yn gwneud pob math o weithgareddau i ddathlu'r diwrnod, a chafodd sawl un gerdyn annisgwyl yn cyfarch mewn ffordd ddifyr e.e. "Dwi 'di groni hefo chdi!" Diolch i'r holl rieni a brynodd gardiau gan y disgyblion a diolch i aelodau o'r Clwb Menter am eu creu!

Bl 2 Y Fari Lwyd



Mae dosbarthiadau Bl 2 wedi bod yn gweithio ar draddodiadau Cymru. Amser i'r Fari Lwyd ymddangos! Daeth cnoc enfawr ar ddrysau'r dosbarthiadau, ac yn sydyn, roedd penglog lliwgar yr hen Fari, yn cael ei thywys gan Mrs Parry Owen, yn cyrraedd gyda fflyd o blant o'i chwmpas yn canu ac yn dawnsio ac yn gofyn am galennig! Golygfa werth chweil!

Archarwyr

'Archarwyr' yw thema dosbarth Mrs Marian Jones ar hyn o bryd, ac yn ddiweddar, a daeth y disgyblion i'r ysgol wedi eu gwisgo fel eu hoff archarwyr. Roedd yn ddoniol iawn gweld Spiderman a Batman (Mrs Marian Jones a Mr Tomos Morris) yn crwydro'r coridorau! Cafwyd diwrnod gwych yn creu sioeau lliwgar ar yr 'I-pads' a'r plant wrth eu boddau yng nghanol yr holl gyffro!



Archarwyr Ysgol Llanllechid

Ysgol Iach

Cafwyd wythnos o ganolbwyntio ar iechyd, a chadw'n iach yn ddiweddar, a bu pob dosbarth yn cynnal gweithgareddau'n seiliedig ar bethau'n amrywio o gadw'n heini, bwyta'n iach i ddysgu am y corf, a dawnsio'r Swmba! Diolch i'r Cyngor Ysgol am ymwneud â'r trefniadau; i Emma Williams ac Alison Williams am ddod i gynnal y sesiynau, ac i'r rhieni dewr a ddaeth i ymuno yn yr hwyl hefyd ar ôl ysgol!

Post Rachub

Aeth disgyblion Bl 1 am dro i Siop y Post yn Rachub. Fel rhan o'u gwaith Llythrennedd a Rhifedd, bu'r disgyblion yn ysgrifennu llythyr i'w rhieni i ddiolch am y Nadolig bendigedig a gawsant cyn dysgu ysgrifennu eu cyfeiriad ar yr amlen. Yna, cafodd pob un brynu stamp i'w roi ar yr amlenni yn y Post gan Mr Ian Scott. Diolch am y cydweithio hapus sydd yn bodoli rhwng yr ysgol a'r siop pob amser.

'Y Synhwyr' yw thema dosbarth Mr Stephen Jones ar hyn o bryd, ac fel rhan o'r thema cafodd y dosbarth ddiwrnod prysur yng Nghanolfan Techniquet yn Wrecsam. Bu'r plant yn dysgu am olau a sain a sut mae'r rhain yn teithio. Cafwyd cyfle i greu pob math o seiniau gan ddefnyddio offer diddrol a chael defnyddio paneli solar bach wrth ddysgu am ynni adnewyddadwy. Diwrnod gwerth chweil!

Kung Hei Fat Choy!

Blwyddyn Newydd Dda i'r holl ddarllenwyr! Bu'r ysgol yn dathlu blwyddyn newydd Tsieina gyda llond trol o weithgareddau amrywiol, lliwgar! Un o'r uchafbwyntiau oedd gwrando ar sŵn y drwm yn diasbedain drwy'r holl ysgol, a'r ddraig enfawr yn ymdroelli o un dosbarth i'r llall! Diolch i Ms Hanna Huws, ceidwad y ddraig! Ymhlith yr holl weithgareddau, bu tri cogydd o Fl 5 yn coginio nwdls a saws oren o dan arweiniad Mrs Rhian Jones; gwirioneddol fendigedig! Diolch i Lauren, Boe a Joseph am y wledd!

Gwynedd yn Dathlu Diwrnod Cenedlaethol Llyfrgelloedd

Gyda Diwrnod Cenedlaethol Llyfrgelloedd yn cael ei gynnal ar ddydd Sadwrn, 8 Chwefror, mae Gwasanaeth Llyfrgell Cyngor Gwynedd yn cynnal ymgyrch arbennig gyda chyfle i aelodau newydd ennill e-ddarllenydd newydd sbon.

Er mwyn tynnu sylw at y wledd o adnoddau a gwasanaethau sydd ar gael yn llyfrgelloedd y sir, bydd cyfle i unrhyw un sy'n 11 oed neu'n hŷn sy'n ymaelodi gyda'r llyfrgell erbyn 28 Chwefror 2014 ennill dyfais i ddarllen e-lyfrau.

Dywedodd y Cyngorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd, sy'n arwain ar lyfrgelloedd:

“Yn ogystal â gallu benthyg llyfrau a llyfrau llafar, mae modd hefyd defnyddio cyfrifiaduron yn rhad ac am ddim a llogi DVDs. Felly, os nad ydych chi eto'n aelod o'r llyfrgell, dyma gyfle gwych – mae'n hwylus, hawdd ac yn rhad a bydd ein staff cyfeillgar ar gael i gynnig cymorth os oes angen. Bydd cyfle hefyd i chi ennill e-ddarllenydd os ydych yn ymuno yn ystod mis Chwefror.”

Gall pob aelod o lyfrgelloedd Cyngor Gwynedd gael mynediad rhad ac am ddim at wasanaeth e-lyfrau trwy ymweld â cymru.librarybooks.co.uk - ond er mwyn gallu lawrlwytho llyfrau rhaid cael rhif PIN (gofynnwch yn eich llyfrgell). Am ragor o wybodaeth am lyfrgelloedd Cyngor Gwynedd, ewch i: <http://www.gwynedd.gov.uk/lyfrgelloedd>

Chwaraeon

Tîm Pêl-droed Bethesda Celts 1968



Rhes gefn – Raymond Jones (cefnogwr), Einion Owen, Les Davies, Eirwyn Jones, Merfyl Owen, Alwyn Thomas, Kitchener Roberts (Cadeirydd), Elwyn Jones, Hedd Williams.
Rhes flaen - Dafydd Gwilym Jones (Trysorydd y Clwb), Richard Lloyd Jones, Elfed Bullock, Emrys Owen, Walter Williams, John Baston, Arwel Owen, Nigel Whitehead.

O’r Galon (Iwerddon 26 Cymru 3)


Rhoi esgus dros O’Driscoll
oedd y ffeit, rhyw agwedd ffôl.
Ef, y llew ymysg Llewod
seren byth yn siŵr yw’n BOD.

Deuai’r coch yn frwd i’r cae
â’u hergwd, ffurfio argae
i oddef llif y Gwyddel,
codi’n pen, rhaid cadw’n pêl.
Mae eu dull o rym a dawn
yn gyfoes, mae yn gyfiawn
â North a’i rediad nerthol,
‘dime goch’ i’r dim am gôl.

Bu anhap! Nid ar bapur
enillir gêm, llorio gwŷr,
Mae tacteg Cymru’n gwegian,
nid yw’r gwŷr yn codi’r gân.
Medrus, nid ŷnt ond meidrol,
y gwŷr gwyrdd sy’n sgorio’r gôl.

Llu ein draig sy’n colli’n drwm;
y stid sy’n tanio’r stadiwm.
Y dacl, y bàs, - petasai....
a thiwn rwydd yw Athenry.
Cefnwn yn haid, cofiwn hon
i’r Gael daeth nerth o’r galon.

Richard Llwyd Jones



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda’ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk

Menter Beicio Diogel

Mae beicwyr yng Ngwynedd wedi croesawu ymgyrch ddiweddaraf Partneriaeth Diogelwch Ffyrdd Gwynedd Môn i godi ymwybyddiaeth ymhlith holl ddefnyddwyr y ffordd i fod yn fwy ymwybodol ac yn ystyriol o’i gilydd.

Neges allweddol yr ymgyrch yw annog beicwyr i fod yn fwy gweledol ar y ffyrdd ac i godi ymwybyddiaeth gyrwyr o’r pwysigrwydd o adael o leiaf 1.5 metr o le wrth basio beicwyr.

Mae beicwyr brwd o Wynedd a Môn yn hybu’r ymgyrch hon drwy wisgo gwasgodau llachar sydd yn dangos y neges diogelwch ffyrdd hanfodol 1.5 metr pan maen nhw’n beicio o gwmpas ffyrdd Gogledd Cymru a thu hwnt.

Mae’r gwasgodau yn dangos y neges 1.5 metr yn glir, yn lliwgar ac yn adlewyrchol i sicrhau fod y beiciwr yn weledol i holl ddefnyddwyr eraill y ffyrdd yn ystod y dydd ac mewn tywyllwch.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Roberts, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol am ddiogelwch y ffordd:

“Fel Cyngor, rydym yn awyddus i annog mwy o bobl i feicio, nid yn unig yn eu hamser hamdden ond hefyd i fynd o A i B. Mae’n bwysig ein bod yn gwneud pob dim posibl i sicrhau diogelwch beicwyr ar ffyrdd Gwynedd, gan fod ganddyn nhw gymaint o hawl i ffordd ag unrhyw un arall.

“Gobeithiaf bydd yr ymgyrch diogelwch newydd hwn yn codi ymwybyddiaeth ymhlith gyrwyr ei bod yn bwysig i adael pellter diogel wrth basio beicwyr ar y ffordd, yn ogystal â thawelu meddyliau beicwyr eu bod yn saff ar ffyrdd Gwynedd.

“Yn hynny o beth, mae’n hefyd angen annog beicwyr i gymryd camau i sicrhau eu diogelwch personol eu hunain, megis drwy wisgo helmed a lliwiau llachar i gynyddu eu hamlygrwydd ar y ffyrdd sy’n bwysig iawn, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf pan fydd hi’n tywyllu’n gynt.”

Esboniodd Kevin Williams, sydd yn beicio’n rheolaidd yng Ngwynedd, bod amryw o gerbydau wedi ei basio heb adael gofod diogel:

“Rwy’n cefnogi ‘Ymgyrch 1.5 metr’ ac yn mawr obeithio bydd y neges hon yn cyrraedd gyrwyr ac yn eu hannog i roi mwy o ofod i feicwyr wrth eu pasio ar ffyrdd Gwynedd.”

Am fwy o wybodaeth am ‘Ymgyrch 1.5 metr’, e-bostiwch partneriaethgm@gwynedd.gov.uk neu gallwch ffonio’r tîm diogelwch ffyrdd ar 01286 679 901.

Oes yna rywun yn gwybod enwau’r chwarelwyr yn y llun?



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda’ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamsHY@parliament.uk